

# Pecyn cymorth gwerthuso

Diwygiedig 9 Tachwedd 2023

Gwneud synnywr o'r cyfryngau

# Croeso

Croeso i becyn cymorth gwerthuso Ofcom. Bwriad y pecyn yw rhoi cymorth i sefydliadau sy'n darparu mentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu'n benodol at y rheini sy'n dechrau gwerthuso; efallai mai elusen fach ydych chi gyda phrosiect sy'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chamwybodaeth am iechyd, neu'n llyfrgell sy'n cynnal dosbarthiadau ar sgiliau digidol sylfaenol ar gyfer pobl hŷn. Fodd bynnag, mae'r adnoddau a ddarparwn hefyd wedi'u cynllunio i fod o ddefnydd ac o fudd i'r rheini sy'n gweithio ar draws y sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

Rydym wedi paratoi'r pecyn cymorth hwn fel rhan o'n rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau i helpu i wella dealltwriaeth, gwybodaeth a sgiliau ar-lein plant ac oedolion yn y DU.

Credwn fod gwerthuso effeithiol yn hanfodol i lwyddiant mentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae'r pecyn hwn wedi'i gynllunio fel canllaw ymarferol, i'w gwneud mor syml â phosibl i ymgorffori gwerthuso yn eich gwaith ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Ein nod yw sicrhau bod gwerthuso yn rhan annatod o fentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, a bod y dystiolaeth a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu ag eraill mewn ffordd hygyrch.

Rydym yn gwybod bod gwerthuso'n gallu ymddangos yn gymhleth ac yn gostus. Rydym yn gwybod hefyd bod gan bobl sy'n cyflwyno mentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau lefelau amrywiol o brofiad a gwybodaeth o ran gwerthuso. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n ei wneud am y tro cyntaf gydag amser a chyllidebau cyfyngedig, a sefydliadau sydd â mwy o brofiad ac adnoddau sy'n awyddus i ddyfnhau eu dull gwerthuso. Mae ein canllawiau'n nodi dull ymarferol sydd wedi'i rannu'n gamau syml, ac mae'n eich galluogi i ddewis yr elfennau sy'n gweithio orau i chi.



# Cynnwys


**Croeso** ..... **1**

**Trosolwg** ..... **3**

Beth yw ystyr gwerthuso? ..... 3

Pam ddylwn i werthuso? ..... 4

Sut mae'r canllawiau hyn yn gweithio ..... 5

**Paratoi** ..... **6**

Cynllunio'r broses ..... 6

Ysgrifennu eich damcaniaeth newid ..... 9

Dylunio eich cwestiynau gwerthuso allweddol ..... 13

Blaenoriaethu eich canlyniadau a gosod eich dangosyddion canlyniadau ..... 15

Cwblhau eich fframwaith gwerthuso ..... 17

Enghraifft o Ddamcaniaeth Newid ..... 18

Enghraifft o fframwaith gwerthuso ..... 19

**Gwneud** ..... **20**

Dulliau ymchwil ..... 20

Dadansoddi data ..... 23

Dangos eich bod wedi gwneud y gwahaniaeth ..... 23

**Dysgu a Rhannu** ..... **25**

Myfyrio ac addasu ..... 25

Rhannu ..... 25

Rhoi eich adroddiad gwerthuso at ei gilydd ..... 26

Delweddu eich data ..... 27

Rhannu eich adroddiad gwerthuso yn fewnol ac yn allanol ..... 28

**Atodiad: Geirfa** ..... **29**

**Atodiad: Adnoddau** ..... **33**

# Trosolwg

Amser darllen: 6 munud

## Beth yw ystyr gwerthuso?

Mae sawl ffordd o ddiffinio gwerthuso, yn amrywio o ddiffiniadau eang – er enghraifft, dyma'r diffiniad sy'n cael ei ddefnyddio gan Better Evaluation: "Unrhyw broses systematig i farnu teilyngdod, gwerth neu arwyddocâd drwy gyfuno tystiolaeth a gwerthoedd" – i ddiffiniadau penodol, yn y Fframwaith Canlyniadau Darllen: "Deall, dangos a gwella **effaith** eich gweithgaredd".

Gallech fod yn gwerthuso er mwyn:

- canfod cyfleoedd i wella'r broses gyflawni;
- deall cost-effeithiolrwydd y fenter at ei diben arfaethedig;
- deall yr effaith y mae'r fenter wedi'i chael ar y rheini sy'n cymryd rhan.

Mae'r rhain i gyd yn ffactorau pwysig. Fodd bynnag, mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio'n benodol ar effaith.

***Diffiniad: Effaith***

Mae'r term 'effaith' yn cael ei ddefnyddio'n aml mewn perthynas ag adrodd am brosiectau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, ac weithiau mae'n cael ei ddefnyddio i gyfeirio at gyrhaeddiad (er enghraifft, nifer y cyfranogwyr sydd wedi ymgysylltu â'r deunydd). At ddibenion y canllawiau hyn, pan fyddwn yn sôn am effaith, rydym yn golygu newid ar lefel unigol neu gymdeithasol y gellir ei briodoli i ymyriad.

Credwn ei bod yn bwysig, lle bynnag y bo modd, bod gwerthuso'n cael ei integreiddio i ddatblygiad unrhyw brosiect o'r cychwyn cyntaf ac yn rhan annatod o'i gynllun. Mae dau brif reswm am hyn:

- Bydd llawer o'r technegau a ddefnyddir fel rhan o'r broses cynllunio gwerthusiad – fel amlinellu beth yn eich barn chi fydd effaith gyffredinol eich cynllun – yn eich helpu i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o sut y bwriedir i'r prosiect weithio.
- Drwy osod y sylfeini ar gyfer gwerthuso o'r dechrau, rydych yn gwneud y broses yn haws. Er enghraifft, gall cynllunio'r gwaith o gasglu data yng nghynllun eich prosiect fod yn ffordd dda o sicrhau bod gennych y cynnwys cywir i'w ddadansoddi yn nes ymlaen yn y prosiect.



## Pam ddylwn i werthuso?

Mae'n bwysig deall beth sy'n gweithio o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, ac mae gwerthuso'n chwarae rhan hollbwysig yn hyn. Canfu adroddiad gan Ofcom yn 2021 y byddai gwreiddio gwerthuso mewn cwricwla ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn helpu'r bobl sy'n cyflwyno mentrau i nodi'n glir yr effaith y mae'r mentrau hyn yn ei chael ar wybodaeth, agweddau a dealltwriaeth cynulleidfaoedd[1].

***Diffiniad: Canlyniad***

Canlyniad yw canlyniad ymyriad, sydd yn ddelfrydol yn fudd i'r gynulleidfa darged. Fel arfer, mae'n gyfyngedig ac yn fesuradwy.

Er enghraifft, ar gyfer prosiect ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gallai hyn gynnwys:

- cynyddu gwybodaeth cyfranogwyr,
- cyfranogwyr yn ennill sgìl newydd,
- newid mewn agwedd ymysg cyfranogwyr

Nododd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ei Strategaeth Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau Ar-lein 2021[2] bod diffyg gwerthuso cadarn yn y sector yn un o'r chwe her yr oedd angen rhoi sylw iddynt er mwyn gwella **canlyniadau** ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i ddefnyddwyr. Mae gwerthuso yn golygu mesur a deall newid. Mae'n cynnig amrywiaeth o fanteision ac ni ddylai fod yn ddyfarniad 'pasio neu fethu' ar ddiwedd y prosiect. Gall wneud y canlynol:

- eich helpu i ddysgu am eich prosiect, i ddefnyddio'r hyn rydych wedi'i ddysgu, i wneud newidiadau i wella'r prosiect ac i wneud cynnydd tuag at eich nodau;
- rhoi gwybod i chi pa mor effeithiol oedd eich ymyriad a rhoi'r hyder i chi gyflwyno eich dull yn ehangach yn y dyfodol;
- eich helpu i ddod o hyd i ganlyniadau eich prosiect nad oeddech yn disgwyl eu gweld.

Drwy rannu canlyniadau eich gwerthusiad, gallwch helpu pobl eraill sy'n gweithio ar brosiectau tebyg i gryfhau eu dulliau gweithredu, yn enwedig os yw eich prosiect yn torri tir newydd neu'n rhoi sylw i themâu neu bynciau nad ydynt wedi cael eu gwerthuso o'r blaen. Mae rhannu tystiolaeth gwerthuso yn hanfodol i helpu'r sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i ddod yn fwy effeithiol:

- bydd eich sefydliad ac eraill sydd â nodau tebyg yn gallu dadlau achos cryfach dros werth eich prosiectau;
- bydd gan y rheini sy'n cynllunio mentrau yn y dyfodol fwy o wybodaeth am yr hyn sy'n gweithio, a'r hyn nad yw'n gweithio, a byddant yn gallu darparu ymyriadau gwell o ganlyniad; a
- bydd cyllidwyr yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch rhoi arian i sefydliadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau os oes ganddynt dystiolaeth bod prosiectau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn gwneud gwahaniaeth.

Gwyddom y gall rhannu fod yn heriol (yn enwedig os na weithiodd rhywbeth), ond drwy sicrhau bod eich canfyddiadau ar gael i eraill sy'n cynnal ymyriadau tebyg ynghylch ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, rydych yn eu galluogi i ddefnyddio'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu yn eu gwaith eu hunain. Drwy gydweithio a chronni gwybodaeth, gallwch helpu'r sector cyfan i symud i gyfeiriad cadarnhaol.

[1] Edwards, L. Stoilova, M., Anstead, N., Fry, A., El-Halaby, G. a Smith M. (2021) Rapid Evidence Assessment on Online Misinformation and Media Literacy: Final Report for Ofcom.

[2] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. (2021). *Online Media Literacy Strategy*.

## Sut mae'r canllawiau hyn yn gweithio

Nodir y tri cham yn y penodau canlynol:

**Cam un: Paratoi**

**Cynllunio eich dull gweithredu a chreu eich fframwaith**

**Cam dau: Gwneud**

**Casglu a dadansoddi eich data**

**Cam tri: Dysgu a Rhannu**

**Defnyddio, adrodd a chyfleu eich canfyddiadau**



# Paratoi

Amser darllen: 20 munud

Mae'r adran hon wedi'i rhannu'n dri cham:



- **Cynllunio'r broses**
- **Ysgrifennu eich damcaniaeth newid**
- **Dylunio eich cwestiynau gwerthuso**
- **Blaenoriaethu eich canlyniadau a gosod eich dangosyddion canlyniadau**
- **Cwblhau eich fframwaith gwerthuso**

## Cynllunio'r broses

Rydym yn argymell eich bod yn dechrau meddwl am eich gwerthusiad pan bod eich ymyriad neu'ch prosiect yn cael ei ddylunio. Ar y pwynt hwn, mae cyfres o benderfyniadau y gallwch eu gwneud a fydd yn dylanwadu ar y math o werthuso y byddwch yn ei wneud yn y pen draw. Dylid gwneud hyn drwy ymgynghori â chynifer o bobl â phosibl sy'n ymwneud â'r prosiect (**rhanddeiliaid**).

***Diffiniad: Rhanddeiliaid***

Gall rhanddeiliaid y prosiect gynnwys unrhyw un sy'n ymwneud â'r prosiect, gan gynnwys noddwyr prosiectau, aelodau eraill o'r tîm, neu ar gyfer prosiectau mwy, timau eraill.

Gall rhanddeiliaid hefyd gynnwys unrhyw un y gallai'r ymyriad effeithio arnynt, fel cynulleidfaoedd targed.

Pan fyddwch yn dechrau cynllunio eich gwerthusiad, rydym yn argymell eich bod yn ystyried chwe pheth cyn dechrau arni, a'ch bod yn ail-edrych arnynt wrth i chi weithio drwy'r camau paratoi yn yr adran hon:

1. **Beth yw amcanion cyffredinol fy mhrosiect?** Bydd y rhain yn amrywio o un prosiect i'r llall, oherwydd bydd gan bob prosiect nodau penodol sy'n gysylltiedig â gwaith eich sefydliad. Mae'n ddefnyddiol bod yn glir o'r cychwyn cyntaf ynghylch yr hyn yr ydych am ei gyflawni, gan y bydd y meddylfryd hwnnw'n rhan o'ch cynlluniau gwerthuso. I'ch helpu i gwblhau eich amcanion yn derfynol, gallwch greu damcaniaeth newid
2. **Pa fath o werthusiad mae angen i mi ei wneud?** Mae llawer o'r gwerthusiadau'n canolbwyntio ar ba mor dda y cafodd y prosiect ei gyflawni (er enghraifft, beth aeth yn dda, beth nad aeth yn dda, a sut roedd y cyfranogwyr yn teimlo amdano). Yn aml, gelwir y rhain yn **werthusiadau prosesau**, oherwydd eu bod yn asesu'r broses y tu ôl i'r gweithdai neu'r deunyddiau eu hunain, a'u heffeithiolrwydd.

***Diffiniad: Gwerthusiad prosesau***

Bydd gwerthusiadau prosesau'n canolbwyntio ar ofyn i chi ystyried sut gwnaethoch chi gyflawni eich prosiect, a sut roedd y ffordd y cafodd y prosiect ei gyflawni wedi effeithio ar y canlyniadau terfynol.

Mae **gwerthusiadau effaith** yn canolbwyntio ar ofyn i chi ystyried beth mae'r prosiect wedi'i gyflawni o ran newid ar gyfer y gynulleidfa darged a/neu'r gymdeithas ehangach, a pha mor dda rydych chi wedi cyflawni eich amcanion. Yn aml mae cyllidwyr, yn enwedig llywodraethau, ymddiriedolaethau neu sefydliadau, yn gofyn amdanynt.

***Diffiniad: Gwerthusiad effaith***

Mae gwerthusiad effaith yn canolbwyntio ar ofyn i chi ystyried beth mae'r prosiect wedi'i gyflawni o ran newid ar gyfer y gynulleidfa darged a/neu'r gymdeithas ehangach, a pha mor dda rydych chi wedi cyflawni eich amcanion.

Mae gwerthusiadau sy'n canfod a yw prosiectau wedi sicrhau gwerth am arian yn cael eu galw'n werthusiadau economaidd. Gall gwerthusiadau gynnwys yr holl elfennau uchod a byddant yn wahanol i bob cynllun, yn dibynnu ar eich damcaniaeth newid a'r fframwaith gwerthuso, fel yr esbonnir yn yr adran nesaf.

***Diffiniad: Gwerthusiad economaidd***

Bydd y gwerthusiadau hyn yn canolbwyntio ar ofyn i chi ystyried costau eich prosiect mewn perthynas â'r manteision, gan ofyn cwestiynau fel "oedd y canlyniad yn werth y gost?" Neu "a allai rhywbeth arall fod wedi sicrhau'r un canlyniadau am lai o arian?"

3. **Pa adnoddau sydd ar gael i gynnal gwerthusiad, a phwy fydd yn gyfrifol amdano?**
Bydd rhai gwerthusiadau'n gofyn am lai o adnoddau nag eraill (yn amrywio o rywbeth y gall rheolwr y prosiect ei wneud ochr yn ochr â chyflawni'r prosiect, i dîm gwerthuso penodol) a bydd hyn yn dibynnu ar y math o werthusiad yr ydych am ei gyflawni. Mae'r sgiliau y gallai fod eu hangen ar gyfer gwerthusiad yn amrywio o ddylunio prosiect i reoli data neu ysgrifennu adroddiadau, ond mae'n bwysig ystyried hyn cyn i chi ddechrau ym mhob achos. Mae manteision ac anfanteision i wneud y gwerthusiad eich hun neu ddefnyddio gwerthuswr allanol.



- **Mewnol.** Gallai gwneud hyn eich hun arwain at feithrin sgiliau a phrofiad o werthuso yn eich sefydliad. Mae hefyd yn golygu y bydd gennych yr arbenigedd i sicrhau bod modd ymgorffori gwerthuso yng nghynllun y fenter, a bydd yn eich galluogi i ddysgu ac addasu'n gyflymach i unrhyw ganfyddiadau. Fel arfer, mae'n fwy cost effeithiol na chomisiynu gwerthusiad allanol, ond gall argaeledd staff gyfyngu ar faint o ddangosyddion rydych chi'n eu gosod a faint o ddata rydych chi'n ei gasglu.
- **Allanol.** Mae comisiynu gwerthusiad allanol yn ddefnyddiol os nad oes gennych yr arbenigedd mewnol na staff ar gael i wneud hynny eich hun. Gallwch weithio gyda chwmni ymchwil gymdeithasol masnachol neu gyflogi gwerthuswr annibynnol i weithio ochr yn ochr â chi. Drwy gyflogi rhywun sydd heb unrhyw gysylltiad blaenorol â'r prosiect, gallwch sicrhau didueddrwydd. Un opsiwn yw gweithio gydag academyddion sy'n gwneud gwaith ymchwil ac yn arbenigo ym mhwnc eich menter. Ni fydd hyn o reidrwydd yn gostus, oherwydd weithiau bydd gan ymchwilwyr gyllid yn barod.

4. **Pa dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar y mater y mae fy ymyriad yn ceisio rhoi sylw iddo?**

Y dystiolaeth **llinell sylfaen** yw'r man cychwyn ar gyfer mesur newid. Ar gyfer prosiect ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, mae'n bosibl mai hyn yw lefel gwybodaeth bresennol y cyfranogwyr am bwnc, neu lefel bresennol eu sgiliau. Fel arfer, bydd hyn yn cael ei gasglu gan gyfranogwyr cyn i'r ymyriad ddechrau. Mae ffynonellau tystiolaeth allanol y gallwch eu defnyddio hefyd


***Diffiniad: Llinell sylfaen***

Y llinell sylfaen yw'r man cychwyn ar gyfer mesur newid. Ar gyfer prosiect ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gallai hyn fod yn lefel gwybodaeth bresennol y cyfranogwyr am bwnc, neu lefel bresennol eu sgiliau. Gellid sefydlu hyn drwy gynnal cwis, arolwg, cyfweliad neu grŵp ffocws gyda'r gynulleidfa darged cyn i'r ymyriad ddigwydd, a/neu drwy ymchwil flaenorol ar gynulleidfaoedd tebyg.

Bydd sefydlu'r ddealltwriaeth hon ar y dechrau, a gwybod am unrhyw dystiolaeth y gallwch ei defnyddio i fesur yn ei herbyn, yn ddefnyddiol wrth i chi symud ymlaen drwy'r gwerthusiad.

Gall y dystiolaeth hon hefyd eich helpu i feddwl lle gallech dargedu eich ymyriad, er enghraifft drwy dynnu sylw at ddemograffeg benodol sydd angen cymorth. I helpu i gasglu'r dystiolaeth hon, mae cyrff ymchwil y gallwch ymgynghori â nhw, fel adroddiadau gan Ofcom, Mynegai Digidol Defnyddwyr Lloyds, Parent Zone ac Internet Matters, a chrynodebau neu gyfeiriaduron ymchwil fel CO:RE a Chyngor Llywodraeth y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd (UKCIS). I gael dolenni at y rhain ac adroddiadau ymchwil eraill, gallwch chwilio yn ein llyfrgell.

5. **A oes unrhyw werthusiadau eraill o ymyriadau tebyg y gallaf ddysgu ohonynt?**
Gall fod yn ddefnyddiol chwilio am werthusiadau eraill cyn i chi ddechrau ar eich gwerthusiadau eich hun – mae'n ddigon posibl y bydd y rhain yn cynnwys gwersi a all eich helpu i wella eich ymyriad hyd yn oed ymhellach. Hefyd, mae profi effaith bob amser yn anodd ac os yw sefydliad arall wedi gwario arian ar werthusiad sy'n dangos y gall prosiectau fel eich un chi gael effaith, mae hon yn wybodaeth ddefnyddiol.



6. **Pwy fydd yn darllen fy adroddiad gwerthuso?**
Os yw'n adroddiad ar gyfer eich cyllidwyr, holwch nhw i weld a oes ganddynt ofynion o ran adrodd, pa fath o werthusiad y maent yn disgwyl ei weld, ac a hoffent i chi fesur canlyniadau penodol. Os yw'n adroddiad ar gyfer cynulleidfa ehangach, ystyriwch y mathau o ganfyddiadau a allai fod yn ddefnyddiol i eraill yn y sector eu darllen, megis a oedd dull cyflwyno penodol yn gweithio i gynulleidfa darged benodol. Os yw'n adroddiad ar gyfer defnydd mewnol, efallai y byddwch am gynnwys myfyrdodau am y broses werthuso ei hun.

# Ysgrifennu eich damcaniaeth newid

Mae **damcaniaeth newid** yn ffordd o nodi'r meddylfryd (damcaniaeth) y tu ôl i'r newid y mae eich menter (neu sefydliad) eisiau ei gyflawni. Mae hyn yn boblogaidd ymysg llywodraethau, cyrff trydydd sector a chyrff anllywodraethol.

Mae creu damcaniaeth newid yn broses sy'n rhoi cyfle i chi a'ch cydweithwyr fyfyrio'n feirniadol ar y problemau rydych yn eu hwynebu, eu rhannu a'u trafod, a'ch dull arfaethedig o fynd i'r afael â nhw. Y rheswm am hyn yw bod y broses o nodi damcaniaeth newid yn gofyn i chi ddisgrifio eich menter mewn ffordd resymegol.

Mae cael damcaniaeth newid hefyd yn gymorth mawr wrth lunio cynllun i werthuso eich prosiect. Bydd damcaniaeth newid yn eich galluogi i ddeall y daith o ddechrau'r cynllun i'r diwedd a bydd yn nodi'r tybiaethau sy'n sail i'ch gwaith, y bydd angen i'r gwerthusiad eu rhoi ar brawf. Gallwch gynnwys eich datganiad damcaniaeth newid mewn fframwaith gwerthuso. Yn yr adran nesaf, rydym yn esbonio sut mae gwneud hyn ac rydym wedi creu templed y gallwch ei ddefnyddio. Gall datblygu damcaniaeth newid ar gyfer eich menter amrywio o sesiwn awr o hyd i gasglu syniadau gyda'ch cydweithwyr i ymarfer wythnos o hyd – ond mae meddwl drwy'r elfennau hyn yn rhan bwysig o ddeall effaith y prosiect.

Weithiau, mae'r ymadrodd '**damcaniaeth newid**' yn cael ei ddefnyddio'n gyfnewidiol â thermau fel '**model rhesymeg**', '**fframwaith canlyniadau**', 'cadwyn o ddigwyddiadau' a 'cadwyn canlyniadau' wrth ddisgrifio sylwadau gweledol (tablau neu siartiau llif yn aml) proses gwerthuso prosiect. Mae rhai gwahaniaethau cynnil rhwng y termau, ond at ddibenion eich gwerthusiad gallwch gymryd yn ganiataol eu bod yn cyflawni pethau tebyg. Yn syml, nid oes un ffordd gywir o wneud hyn.

***Diffiniad: Model rhesymeg***

Mae model rhesymeg yn egluro'r berthynas rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau eich ymyriad.

Gellid cynnwys llawer o'r wybodaeth hon hefyd mewn fframwaith gwerthuso.

***Diffiniad: Fframwaith canlyniadau***

Mae fframwaith canlyniadau yn cynnwys diffinio'n glir y canlyniadau yr ydych am eu cyflawni, a'u blaenoriaethu. Er enghraifft, gallech eu rhannu'n fanteision i unigolion ac yn fanteision i'r gymuned. Mae'n helpu i ganolbwyntio eich gwaith ar y canlyniadau sy'n bwysig i chi, i gysylltu eich gweithgareddau â'r canlyniadau rydych chi am eu gweld, ac i gyfleu'r rhain yn gliriach.

Gellid cynnwys llawer o'r wybodaeth hon mewn fframwaith gwerthuso hefyd.

Gellir defnyddio'r camau isod i greu damcaniaeth newid ar gyfer eich menter.

Ar gyfer y rheini y mae eu hamser yn gyfyngedig, rydym yn argymell eich bod yn dilyn y camau hyn i ysgrifennu naratif damcaniaeth newid cyffredinol ar ffurf brawddegau cysylltiedig (ceir esboniad o hyn isod). Rydym wedi dangos pob rhan o'r broses gydag enghraifft o'n cynllun ffuglennol (Digital Sleuth Club).

I'r rheini sydd â mwy o amser, gall helpu i restru'r gwahanol fewnbynnau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau yn gyntaf er mwyn creu amlinelliad mwy rhesymegol, realistig a manwl o'ch prosiect a fydd wedyn yn eich galluogi i greu naratif damcaniaeth newid mwy trylwyr. Gallwch ddefnyddio'r templed damcaniaeth newid i wneud hyn (dolen).

Mae llawer o sefydliadau hefyd yn creu damcaniaeth newid ar ffurf diagram i grynhoi a chyfleu'n daclus yr elfennau a'r syniadau allweddol y tu ôl i'w gwaith i gyllidwyr, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Nid oes templed penodol ar gyfer hyn a gallwch ddod o hyd i lawer o enghreifftiau ar-lein

***Enghraifft Ffuglennol – Digital Sleuth Club***

Mae'r Digital Sleuth Club yn elusen fach sydd wedi ymrwymo i gynyddu sgiliau ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau/newyddion ymhlith pobl ifanc (10-18 oed) mewn ardaloedd sydd â lefelau uwch o anfantais ariannol ar draws Lloegr, er mwyn cynyddu gwytnwch pobl ifanc o ran camwybodaeth a thwyllwybodaeth, a'u hymddiriedaeth mewn gwybodaeth o ansawdd uchel. Mae'r elusen yn cynnal nifer o weithgareddau y mae'n gobeithio a fydd yn cyfrannu at ei nod. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal gweithdai wyneb yn wyneb mewn grwpiau ieuenctid, colegau a llyfrgelloedd cyhoeddus, darparu adnoddau y gellir eu lawrlwytho ar ei gwefan i grwpiau ieuenctid eu defnyddio ar eu pen eu hunain, a chynhyrchu ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol i geisio cyrraedd cynulleidfaoedd lle bynnag y maent, gan ddefnyddio fideos byr. Naw o weithwyr llawn amser sydd gan yr elusen, ond gall alw ar weithwyr llawrydd pan fydd ganddi ddigon o gyllid ar gyfer prosiectau penodol.

## Creu damcaniaeth newid ar gyfer syniad prosiect sydd eisoes yn bodoli

(Os ydych yn defnyddio'r canllaw hwn i greu damcaniaeth newid ar gyfer ymyriad newydd, efallai yr hoffech chi ystyried camau tri a phedwar - pa wahaniaethau y bydd eich ymyriad yn eu gwneud, a sut gallai'r gwahaniaethau hyn gyfrannu at newid cymdeithasol ehangach - cyn cam dau – pa adnoddau sydd eu hangen.)

### 1 Diffinio'r BROBLEM:

Dechreuwch gyda throsolwg byr o'r her y mae eich menter yn ceisio mynd i'r afael â hi. Er enghraifft, gallai hyn fod yn addysgol neu'n seiliedig ar sgiliau, megis lefelau isel o sgiliau llythrennedd digidol penodol. Mae amrywiaeth o ffyrdd o adeiladu eich sylfaen dystiolaeth gan gynnwys defnyddio adroddiadau ymchwil (gweler ein llyfrgell ymchwil) neu wersi a ddysgwyd o gyflwyno'ch menter eich hun yn flaenorol.

Ar yr adeg hon, gallech gynnwys defnyddwyr eich gwasanaeth drwy ofyn iddynt beth y maent ei eisiau neu'n ei ddisgwyl o'ch menter, yn hytrach na phenderfynu eich hun beth yw'r her. Mae rhagor o wybodaeth am fanteision y dull hwn ar gael yn adroddiad Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau – Cychwyn Ofcom.[3]

***Enghraifft Ffuglennol – Digital Sleuth Club***

Mae'r gynulleidfa darged yn agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth, a dangoswyd bod hyn yn effeithio'n andwyol ar lesiant a chydlyniant cymdeithasol. Mae ganddynt arferion ar-lein cymhleth sy'n esblygu: yn aml, nhw yw'r cyntaf i fanteisio ar lwyfannau newydd, ac maent yn gymwys iawn o ran eu sgiliau digidol, ond mae ymchwil wedi dangos nad oes ganddynt y sgiliau i feddwl yn feirniadol yn aml mewn perthynas â'u defnydd o'r cyfryngau, ac mae llawer yn mynd ati i osgoi'r newyddion, gan ymddiried llawer mwy yn eu cyfoedion. Maent yn tueddu i gredu bod eu sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn well nag y maent mewn gwirionedd.  (Roedd *adroddiad Ofcom ar Defnydd Plant o'r Cyfryngau a'u Hagweddau Atynt 2022*[4] yn dangos bod gan 74% o bobl ifanc 12-17 oed hyder yn eu gallu i adnabod gwybodaeth ffug, ond roedd llai nag un o bob deg yn dangos hyder a gallu yn y math hwn o ddealltwriaeth feirniadol).

[3] Adroddiad Ymchwil Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau Ofcom – Beth sy'n gweithio wrth gyflwyno rhaglenni cymunedol

[4] Plant a rhieni: adroddiad ar y defnydd o'r cyfryngau ac agweddau atynt 2022 - Ofcom

### 2 Pa adnoddau sydd eu hangen? BETH RYDYCH CHI'N EI WNEUD am y broblem, a gyda phwy?

Rhowch grynodeb byr o'r adnoddau sydd eu hangen arnoch neu y gallwch eu defnyddio yn y prosiect (mewnbynnau). Gall hyn gynnwys staff prosiect, cyllid, data ac arbenigedd.

Yna, rhowch grynodeb byr o weithgareddau'r prosiect y byddwch yn eu cyflawni i fynd i'r afael â'r broblem/problemau yr ydych wedi'u hamlinellu a'r bobl y byddwch yn gweithio â nhw. Gallai eich dull gynnwys gweithdai wyneb yn wyneb gan ddefnyddio cwricwlwm sy'n ymdrin â phynciau penodol ar gyfer cynulleidfa benodol, neu ymgysylltu â rhanddeiliaid fel cwmnïau cyfryngau cymdeithasol i wella eu dulliau cymedroli.

***Enghraifft Ffuglennol – Digital Sleuth Club***

Bydd pobl ifanc (10-18 oed) mewn ardaloedd sydd â lefelau uwch o anfantais ariannol ar draws Lloegr yn cymryd rhan mewn gweithdai wyneb yn wyneb mewn grwpiau ieuenctid, colegau a llyfrgelloedd cyhoeddus. Byddant yn: dod ar draws enghreifftiau o wahanol fathau o wybodaeth; clywed am yr adnoddau i wahaniaethu rhwng cynnwys camarweiniol ar-lein a chynnwys y telir amdano, a gwybodaeth sydd wedi'i dilysu; dysgu sut mae ecosystem y cyfryngau digidol yn gweithio; cael eu hannog i fyfyrio ar eu harferion a'u hagweddau eu hunain.

### 3 PA WAHANIAETHAU bydd eich ymyriad yn eu gwneud?

**CANLYNIADAU AR UNWAITH**: Mae cyfranogwyr wedi rhyngweithio â'ch prosiect am y tro cyntaf; er enghraifft, mewn gweithdy, drwy hyfforddiant neu ddeunyddiau darllen. Yn ddelfrydol, bydd y rhyngweithio hwn wedi gwneud gwahaniaeth i'r cyfranogwyr. Byddwch yn edrych ar sut mae cyfranogwyr yn teimlo o ganlyniad uniongyrchol i'r rhyngweithio hwnnw, neu byddwch yn edrych ar newidiadau mesuradwy penodol eich cyfranogwyr, megis gwybodaeth, ymwybyddiaeth neu newidiadau eraill y gallwch eu mesur.

***Enghraifft Ffuglennol – Digital Sleuth Club***

Bydd cyfranogwyr yn gallu adnabod cynnwys dibynadwy yn well, ac adnabod hysbysebion. Byddant yn gallu gwahaniaethu yn well pa wybodaeth maent yn dod ar ei thraws ar-lein sy'n ddibynadwy a pha wybodaeth allai fod yn gamarweiniol, oherwydd bydd ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau i feddwl am ffynhonnell yr wybodaeth a'i chymhellion, yn hytrach na'i derbyn ar yr olwg gyntaf.

Bydd ganddynt fwy o ymwybyddiaeth o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth fel bygythiad sy'n bodoli'n barhaus, oherwydd byddant yn deall sut mae'r gwahanol chwaraewyr yn ecosystem y cyfryngau ar-lein yn gweithredu, a'r cymhellion dros greu a lledaenu cynnwys ffug a chamarweiniol..

**CANLYNIADAU TYMOR CANOLIG**: Dyma lle rhoddir ystyriaeth i effaith yr ymyriad ar gyfranogwyr pan nad ydynt yn ymgysylltu â'ch gweithgareddau mwyach – pa newid mewn ymddygiad y mae eich ymyriad wedi'i gyflawni neu wedi cyfrannu ato? Gallai hyn gynnwys cysylltu â chyfranogwyr ar ôl cyfnod penodol o amser i weld a yw'r newid mewn ymddygiad wedi cael ei gynnal.

***Enghraifft Ffuglennol – Digital Sleuth Club***

Bydd cyfranogwyr yn defnyddio ffynonellau dibynadwy o wybodaeth yn amlach, a byddant yn mabwysiadu dull mwy ystyriol o rannu straeon a gwybodaeth ar-lein, oherwydd byddant yn ymdrin â gwybodaeth gyda llygad mwy beirniadol, a byddant yn deall peryglon rhannu gwybodaeth gamarweiniol.

### 4 Sut gallai'r gwahaniaethau hyn GYFRANNU at newid cymdeithasol ehangach?

Mae eich menter, ochr yn ochr â llawer o fentrau eraill, yn cyfrannu at wella sgiliau, ymddygiad a phrofiadau cyffredinol y boblogaeth mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae bod yn glir ynghylch sut mae eich gwaith yn cyd-fynd â'r cyd-destun cymdeithasol ehangach yn gallu bod yn sylfaen ar gyfer gwerthusiad mwy cynhwysfawr. Mae'n werth nodi mai dim ond un peth sy'n digwydd ym mywydau eich cyfranogwyr yw eich ymyriad ac mae'n bosibl fod pethau eraill yn digwydd sydd wedi dylanwadu ar y ffaith bod pethau wedi newid iddyn nhw neu wedi aros yr un fath.

***Enghraifft Ffuglennol – Digital Sleuth Club***

Bydd cyfranogwyr yn rhan o genhedlaeth sy'n fwy gwydn yn erbyn y niwed ar-lein a achosir gan gamwybodaeth a thwyllwybodaeth, a bydd ganddynt fwy o ymddiriedaeth mewn ffynonellau dibynadwy o wybodaeth. Bydd yr ymyriad yn cael effeithiau cadarnhaol ar eu llesiant - oherwydd byddant yn cael llai o brofiadau negyddol ar-lein – ac ar gydlyniant cymdeithasol ehangach.

### 5 Pa AMODAU y mae angen eu rhoi yn eu lle er mwyn i'ch damcaniaeth weithio?

Bydd eich damcaniaeth newid yn seiliedig ar dybiaethau am y pethau y mae angen eu rhoi yn eu lle er mwyn i'ch damcaniaeth newid weithio, neu am y cysylltiadau achosol rhwng gwahanol elfennau eich damcaniaeth newid (h.y. y bydd un newid yn arwain at un arall).

Gall adnabod a chofnodi'r tybiaethau hyn helpu i gynyddu eich siawns o fenter lwyddiannus. Mae hyn yn caniatáu i chi eu monitro, paratoi cynlluniau lliniaru os ydynt yn anwir, neu, ar gyfer tybiaethau mwy difrifol neu fwy peryglus, ail-lunio eich menter fel nad ydynt yn berthnasol mwyach.

***Enghraifft Ffuglennol – Digital Sleuth Club***

Mae'r Digital Sleuth Club yn tybio y bydd pobl ifanc eisiau cymryd rhan yn y gweithdai ac y bydd gan glybiau ieuenctid le rhydd i'w cynnal.

Maent hefyd yn tybio bod gweithdai dwy awr yn ddigon o amser i ddysgwyr o wahanol alluoedd gyflawni canlyniadau'r gweithdai ar unwaith.

Mae'r Digital Sleuth Club yn tybio bod gwell dealltwriaeth o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth yn y tymor byr yn arwain at fwy o allu i'w hosgoi'n ymarferol, ac y bydd mwy o ymwybyddiaeth yn ddigon o gymhelliant i bobl newid eu harferion a defnyddio gwybodaeth o ffynonellau mwy dibynadwy, yn hytrach na'r rhai y maen nhw a'u cyfoedion yn gyfarwydd â nhw (ac efallai'n teimlo pwysau i'w defnyddio).

Yn y tymor hir, mae'r Digital Sleuth Club yn tybio bod y gallu i feirniadu a yw gwybodaeth maent yn dod ar ei thraws ar-lein yn ddibynadwy yn ddigon i ddiogelu pobl rhag ffyrdd mwy soffistigedig byth o dargedu a chamarwain pobl.

## Dylunio eich cwestiynau gwerthuso allweddol

Mae cwestiynau gwerthuso allweddol yn gwestiynau lefel uchel y mae eich gwerthusiad wedi'i ddylunio i'w hateb. Mae dau fath: cwestiynau gwerthuso effaith a chwestiynau gwerthuso proses.

Dylai cwestiwn gwerthuso effaith:

- roi ar brawf ganlyniad y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r prosiect ('beth' newidiodd - neu'r effaith achosol);
- cael ei lunio, os yw'n bosibl, i sefydlu'r gwahaniaeth rhwng y canlyniadau ar gyfer y rhai a gymerodd ran yn y prosiect, a'r rhai na chymerodd ran.

I bob pwrpas, rydych yn troi eich damcaniaethau fel y'u nodwyd yn eich damcaniaeth newid (e.e. yr hyn y credwch y gall eich menter ei wneud), yn gwestiwn, neu gwestiynau er mwyn rhoi ffocws i'r gwerthusiad i sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â'r materion mwyaf perthnasol. Rydych yn gwneud hyn drwy edrych ar y gweithgareddau a'r canlyniadau yn eich damcaniaeth newid, a'r tybiaethau sydd angen bod yn wir er mwyn cyrraedd yr effaith a nodwyd gennych, ac ail-lunio'r wybodaeth hon fel cwestiynau. (Mae'n debygol o fod yn rhestr hir, ac yn aml nid yw'n ymarferol mynd i'r afael â phob cwestiwn).

Dylai cwestiwn gwerthuso proses archwilio 'sut' a 'pam' unrhyw newid a welwch. Mae cwestiynau gwerthuso proses cyffredin yn cynnwys 'beth sydd wedi gweithio'n dda?' neu 'beth sydd ddim wedi gweithio'n dda neu beth y gellid ei wella?').

**_Achosol ymyriad_**

Effaith achosol ymyriad yw'r effaith (newid) y dangosir ei bod yn ei chael ar ei gyfranogwyr. Gellir ei ddisgrifio fel y gwahaniaeth rhwng y canlyniadau i'r cyfranogwyr sydd wedi cymryd rhan mewn ymyriad, o'u cymharu â'r rhai nad ydynt wedi cymryd rhan, neu ganlyniadau'r cyfranogwyr ar ôl ymyriad, o'u cymharu â chyn hynny.

**_Enghraifft Ffuglennol – Digital Sleuth Club_**

Dyma'r gwerthusiad cyntaf y mae'r Digital Sleuth Club wedi'i wneud o'i weithgareddau. Cafodd eu rownd ddiweddaraf o weithdai ei hariannu gan elusen addysg genedlaethol, ond mae'r cyllid hwn yn dod i ben.

Mae'r cyllidwr yn awyddus i weld a yw wedi llwyddo i ymgysylltu â'r nifer o bobl ifanc sy'n wynebu lefelau uwch o anfantais ariannol a nodwyd yn eu cais am grant, a pha mor dda oedd y gweithdai. Hoffai'r Digital Sleuth Club fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i gael rhagor o gyllid, felly mae hefyd eisiau dangos bod y gweithdy wedi gwella sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau'r bobl ifanc hyn.

Mae'r un cyllidwr yn hoffi dull y Digital Sleuth Club ac mae eisiau gwybod a oes modd cyflwyno'r cynllun peilot i awdurdodau lleol eraill ledled y wlad, a pha addasiadau y gallai fod angen eu gwneud. Fodd bynnag, mae'r Digital Sleuth Club yn gwybod efallai na fydd hyn yn digwydd, ac mae'n awyddus i weld a oes modd creu ffrwd incwm newydd drwy ei ddarparu mewn lleoliadau clybiau ar ôl ysgol, gydag ysgolion yn talu amdanynt.

Gallai eu rhestr hir o gwestiynau gwerthuso gynnwys:

1. A wnaeth staff y prosiect lwyddo i greu adnoddau effeithiol ar gyfer y gweithdai?
2. A wnaeth yr hwyluswyr arbenigol gyflwyno'r gweithdai'n llwyddiannus?
3. A gafodd digon o gyfranogwyr o'r grŵp targed eu recriwtio ar gyfer y gweithdai?
4. A oedd y cyfranogwyr ar ddiwedd y gweithdy yn gallu canfod camwybodaeth yn well?
5. A oedd gan y cyfranogwyr ar ddiwedd y gweithdy ddealltwriaeth well o sut mae ecosystem y cyfryngau digidol yn gweithio?
6. A oedd y cyfranogwyr ar ddiwedd y gweithdy yn deall sut mae cynnwys ar-lein wedi'i ddilysu yn cael ei gynhyrchu, ac yn gwybod sut i'w adnabod ar-lein ochr yn ochr â chynnwys hysbysebu?
7. Y camau nesaf ar gyfer datblygu a chyflwyno'r prosiect hwn. A yw'r prosiect yn gynaliadwy?

## Paratoi

Ar ôl i chi lunio'ch rhestr hir o gwestiynau gwerthuso, dylech flaenoriaethu, ar y cyd â'ch rhanddeiliaid, y cwestiynau gwerthuso pwysicaf i ganolbwyntio arnynt. Gall y rhestr ganlynol eich helpu i flaenoriaethu eich cwestiynau:

- Pa mor bwysig yw'r cwestiwn gwerthuso i staff a rhanddeiliaid (e.e. cyllidwyr)?
- A yw'r cwestiwn yn canolbwyntio ar feysydd allweddol o'ch damcaniaeth newid (e.e. meysydd rydych yn llai siŵr ohonynt, y gallech fod eisiau eu monitro i weld a oes newid yn digwydd fel rydych yn ei ddisgwyl)?
- A fydd y cwestiwn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol y gellir gweithredu arni i wella eich prosiect?
- A ellir ateb y cwestiwn gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i chi ac o fewn amserlen y rhaglen a'i gwerthusiad?

Nid oes nifer 'cywir' o gwestiynau gwerthuso allweddol – mae'n dibynnu faint o amser ac arian y gallwch eu neilltuo i werthuso. Fodd bynnag, mae llawer o ffynonellau yn argymell tua 5-7 o gwestiynau gwerthuso allweddol.

***Enghraifft Ffuglennol – Digital Sleuth Club***

Mae'r galw am weithdai'r Digital Sleuth Club yn uchel iawn, felly mae'n rhaid iddynt flaenoriaethu'r ddarpariaeth yn hytrach nag ateb eu holl gwestiynau gwerthuso. Mae'r tîm yn trafod hyn gyda'i gilydd ac yn penderfynu mai dyma'r pethau pwysig:

- Tystiolaeth bod digon o gyfranogwyr o'r grŵp targed wedi cael eu recriwtio ar gyfer y gweithdai, oherwydd bod hyn yn rhan o'u cytundeb cyllido (C3)
- Deall a dangos tystiolaeth a yw'r gweithdai'n cael effaith ar gyfranogwyr a'u lefelau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, oherwydd eu bod eisiau sicrhau bod eu gweithdai'n cefnogi'r bobl ifanc maent yn gweithio gyda nhw yn effeithiol, rhoi gwybod i'w cyllidwr presennol am hyn, a defnyddio'r dystiolaeth hon mewn ceisiadau am gyllid yn y dyfodol (C4, C5, C6)
- Edrych ar y camau nesaf ar gyfer datblygu a chyflwyno'r prosiect, oherwydd er eu bod eisiau dod o hyd i ffordd o barhau â'u cyllidwr presennol, os nad yw hynny'n bosibl, mae angen iddynt ddod o hyd i ffynonellau cyllid eraill, e.e. gweithgareddau y gallant eu darparu i ysgolion (C7)

Felly, maent yn dewis peidio ag archwilio pa mor dda mae'r hwyluswyr arbenigol yn cyflwyno'r gweithdy (C2), yn rhannol oherwydd eu bod wedi gweithio gyda'r hwyluswyr ers sawl blwyddyn ar wahanol brosiectau ac yn gwybod eu bod yn ddibynadwy.

Maent hefyd yn penderfynu peidio â chanolbwyntio ar y cwestiwn a oedd adnoddau'r gweithdai'n effeithiol (C1), gan ganolbwyntio yn hytrach ar ddeall effaith gyffredinol y gweithdai a'r adnoddau gyda'i gilydd yn gyntaf

# Blaenoriaethu eich canlyniadau a gosod eich dangosyddion canlyniadau

## Blaenoriaethu eich canlyniadau

Dylech hefyd flaenoriaethu, unwaith eto mewn cydweithrediad â'ch rhanddeiliaid, ac mewn perthynas â'ch cwestiynau gwerthuso, y canlyniadau pwysicaf i'w mesur.

Gall gwerthuso nifer llai o ganlyniadau fod yn ffordd well o ddefnyddio adnoddau (fel amser ac arian), lleihau'r baich gwerthuso i gyfranogwyr, a chynyddu eich hyder yn eich canfyddiadau.

Gall y cwestiynau canlynol eich helpu i flaenoriaethu pa ganlyniadau i'w mesur:

- Pa ganlyniadau ydych chi'n llai hyderus y byddant yn digwydd, neu nad oes cymaint o dystiolaeth ohonynt?
- Pa ganlyniadau uniongyrchol sy'n hanfodol er mwyn 'datgloi' canlyniadau eraill?
- Pa ganlyniadau sydd bwysicaf i chi (er enghraifft: ydyn nhw'n berthnasol i'ch cenhadaeth)?
- Pa ganlyniadau sydd bwysicaf i randdeiliaid allanol (er enghraifft, cyllidwyr)?
- Ar gyfer pa ganlyniadau y gallwch chi gynhyrchu data credadwy yn foesegol gyda'r adnoddau a'r amser sydd ar gael i chi?
- Dylai eich rhestr derfynol o ganlyniadau fod yn gymysgedd o ganlyniadau uniongyrchol (yr ydych yn gyfrifol amdanynt) a chanlyniadau tymor canolig (yr ydych yn debygol o gyfrannu atynt yn unig).

Gall fod yn heriol casglu gwybodaeth am ganlyniadau tymor canolig gan fod angen cysylltu â'ch cynulleidfa darged i gael rhagor o wybodaeth ar ôl i'r ymyriad ddod i ben. Ond mae'n bwysig os ydych yn dymuno dangos effaith ehangach eich rhaglen.

Os nad oes gennych yr adnoddau i wneud y cam hwn eich hun, gall fod yn arfer da chwilio am werthusiadau o ymyriadau tebyg sydd eisoes wedi dangos bod cyflawni canlyniadau tebyg yn arwain at yr effeithiau a ddymunir yn y tymor canolig. Er nad yw hyn mor gymhellol â chynhyrchu eich data eich hun, mae'n well na pheidio â darparu unrhyw dystiolaeth ynghylch pam rydych chi'n meddwl y bydd eich canlyniadau'n arwain at effaith benodol.

Yn aml, nid yw'n briodol mesur effeithiau hirdymor. Y rhain yw'r rhai anoddaf i ddarparu tystiolaeth ohonynt gan fod angen ystyried sut y bydd y newid yn ymddygiad y cyfranogwyr yn cyfrannu at newid ar lefel gymdeithasol. Ar gyfer prosiectau llai, ni fydd dangos effaith hirdymor yn ddymunol, o ystyried nifer y cyfranogwyr dan sylw. Ond mae'n bwysig meddwl sut gallai amcanion eich prosiect gyfrannu, ochr yn ochr â phrosiectau gan sefydliadau eraill, at adeiladu corff o ganlyniadau tebyg sy'n cyflwyno'r achos dros ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

***Enghraifft Ffuglennol – Digital Sleuth Club***

Mae gan y Digital Sleuth Club restr o 11 canlyniad uniongyrchol, tymor canolig a hirdymor y gallent eu mesur. Maent yn defnyddio eu rhestr o gwestiynau gwerthuso a'r cwestiynau blaenoriaethu canlyniadau uchod i ganolbwyntio ar fesur pedwar canlyniad:

1. 'Mae gan rieni ddealltwriaeth o werth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein', oherwydd eu bod yn cydnabod bod rhieni'n 'borthorion' sy'n chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o annog pobl ifanc i ddod i'w gweithdai. Heb iddynt ddeall gwerth y gweithdai, efallai na fydd hyn yn digwydd.

2. 'Dealltwriaeth well o sut i adnabod cynnwys ar-lein wedi'i ddilysu, a sut i adnabod cynnwys hysbysebu ar-lein (mae'r canlyniad hwn o ddiddordeb i gyllidwr yr elusen addysg genedlaethol, a byddai'n ddefnyddiol ei ddangos i ysgolion sydd â diddordeb).
3. 'Gwelliant yng ngallu pobl ifanc i ganfod camwybodaeth a thwyllwybodaeth', oherwydd bod y rhain ar eu rhestr fer o gwestiynau gwerthuso (mae'r canlyniad hwn o ddiddordeb i gyllidwr yr elusen addysg genedlaethol, a byddai'n ddefnyddiol ei ddangos i ysgolion sydd â diddordeb).
4. 'Mwy o ddefnydd o ffynonellau dibynadwy o wybodaeth', oherwydd eu bod yn llai sicr a ydynt yn gwneud gwahaniaeth parhaus i ymddygiad pobl ifanc oherwydd dylanwad pwysau gan gyfoedion. Mae'n bwysig i'r Digital Sleuth Club ddeall a yw hyn yn digwydd oherwydd, os nad yw'n digwydd, efallai y bydd angen iddynt wneud gweithgareddau ychwanegol i gyflawni eu nodau

## Gosod eich dangosyddion canlyniadau

Bydd gosod dangosyddion canlyniadau yn eich helpu i benderfynu pa ddata i'w gasglu.

Ystyrir ei bod yn arfer da cael o leiaf ddau ddangosydd i fesur pob canlyniad er mwyn cael gwell dealltwriaeth o p'un a yw newid wedi digwydd ai peidio.

Dylai dangosyddion canlyniadau:

- gael eu mynegi mewn iaith niwtral (e.e. 'lefel', yn hytrach na 'gwell lefel o' ac ati.)
- cynnwys cymysgedd o rifau (meintiol) a disgrifiadau naratif (ansoddol)
- cynnwys cymysgedd o'r goddrychol (h.y. asesiadau neu deimladau wedi'u hunangofnodi, fel 'lefel hyder') a'r gwrthrychol (h.y. asesiadau allanol, fel 'canran y bobl a basiodd brawf')
- dod o wahanol safbwyntiau (e.e. y bobl rydych chi'n eu cefnogi yn ogystal â phobl eraill sy'n agos atyn nhw, fel rhieni neu ofalwyr)

Er enghraifft, ar gyfer prosiect ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gallai dangosydd canlyniad fod yn sgôr y mae cyfranogwyr yn ei gael mewn cwis gwybodaeth 'adnabod camwybodaeth', a gesglir cyn ac ar ôl yr ymyriad.

Byddai gwelliannau cyson a sylweddol mewn sgoriau, yn enwedig os ydynt yn cael eu cynnal dros amser, yn arwydd o ganlyniad cadarnhaol i'r ymyriad.

Gall fod yn anodd creu dangosyddion ar gyfer rhai canlyniadau, yn enwedig canlyniadau 'meddal' ynghylch sut mae pobl yn teimlo neu'n meddwl.

Ar gyfer canlyniadau meddal, efallai y bydd angen i chi hefyd greu dangosyddion 'procsi' – newidiadau amlwg mewn ymddygiad sy'n dangos bod rhywun yn teimlo neu'n meddwl yn wahanol. Er enghraifft, gellid defnyddio pa mor aml mae rhywun yn defnyddio'r rhyngrwyd i siopa fel procsi ar gyfer lefel hunan-hyder.

***Diffiniad: Dangosyddion***

Dangosyddion canlyniadau yw'r darnau mesuradwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i olrhain y newid sydd wedi digwydd o ganlyniad i'ch ymyriad.

***Enghraifft Ffuglennol – Digital Sleuth Club***

Mae'r Digital Sleuth Club eisiau gwybod a yw pobl ifanc wedi cyflawni canlyniadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau (**canlyniadau dau, tri a phedwar**), felly maent yn penderfynu gosod mwy o ddangosyddion canlyniadau ar gyfer y canlyniadau hyn o'u cymharu â'r canlyniad i rieni (**canlyniad un**).

Maent hefyd yn gwybod o waith blaenorol bod y bobl ifanc maent yn eu cefnogi weithiau'n dweud pethau wrthynt a fydd, yn eu barn nhw, yn gwneud iddynt edrych yn dda i eraill, ac yn cuddio eu teimladau neu eu profiadau (h.y. rhagfarn o ran dymunolrwydd cymdeithasol).

Felly, maent yn penderfynu gosod cymysgedd o ddangosyddion goddrychol a gwrthrychol i ddeall a yw hyder a gallu pobl ifanc wedi gwella. Maent yn gosod dangosydd ar gyfer lefel hunan-hyder, yn ogystal ag un sy'n olrhain gallu gwirioneddol pobl ifanc i adnabod camwybodaeth a thwyllwybodaeth (gweler y templed fframwaith gwerthuso yma).

Maent hefyd yn penderfynu gosod dangosydd ansoddol i ddeall pa mor addas yw'r ffynonellau y mae pobl ifanc yn eu defnyddio ar ôl y gweithdai.

## Cwblhau eich fframwaith gwerthuso

Mae fframwaith gwerthuso yn amlinellu sut bydd effaith yn cael ei gwerthuso.

Defnyddiwch y templed o'r fframwaith gwerthuso i nodi'r canlyniadau rydych chi wedi'u blaenoriaethu ar gyfer pob mesuriad, a'r dangosyddion rydych chi wedi'u gosod i'ch helpu i benderfynu pa ddata i'w gasglu.

Ar ein templed o'r fframwaith gwerthuso, dangosir pob rhan o'r broses uchod gydag enghraifft o'n cynllun ffuglennol.

Yna, gallwch gwblhau gweddill y fframwaith gwerthuso wrth weithio drwy'r adran 'Gwneud' a phenderfynu pa ddulliau y byddwch yn eu defnyddio i gasglu data, pryd y bydd hyn yn digwydd, a phwy fydd yn gyfrifol am gasglu data.

### Darllen pellach

I'r rheini sydd eisiau darllen mwy am sut i ddatblygu model rhesymeg, damcaniaeth newid neu fframwaith gwerthuso, mae'r gwefannau hyn yn ddefnyddiol:

Identify the difference you want to make | NCVO (National Council for Voluntary Organisations)

Develop programme theory / theory of change | Better Evaluation

Digital Inclusion Evaluation Toolkit - GOV.UK (www.gov.uk)

Resources - Evaluation Support Scotland

About | Reading Outcomes Framework Toolkit (readingagency.org.uk)

Theory of change in ten steps - NPC (thinknpc.org)

Specify the key evaluation questions | Better Evaluation

How to develop a monitoring and evaluation framework | (National Council for Voluntary Organisations

# Enghraifft o Ddamcaniaeth Newid

## Enw'r prosiect: Digital Sleuth Club

| 1 Diffinio'r 'broblem' | 2 Beth rydych chi'n ei wneud am y broblem, a gyda phwy? | 3 Pa wahaniaethau bydd eich ymyriad yn eu gwneud? Sut bydd newid yn digwydd? | 4 Sut gallai'r gwahaniaethau hyn gyfrannu at newid cymdeithasol ehangach? |
|---|---|---|---|
| Mae'r gynulleidfa darged yn agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth, a dangoswyd bod hyn yn effeithio'n andwyol ar lesiant a chydlyniant cymdeithasol. Mae ganddynt arferion ar-lein cymhleth sy'n esblygu: yn aml, nhw yw'r cyntaf i fanteisio ar lwyfannau newydd, ac maent yn gymwys iawn o ran eu sgiliau digidol, ond mae ymchwil wedi dangos nad oes ganddynt y sgiliau i feddwl yn feirniadol yn aml mewn perthynas â'u defnydd o'r cyfryngau, ac mae llawer yn mynd ati i osgoi'r newyddion, gan ymddiried llawer mwy yn eu cyfoedion. Maent yn tueddu i gredu bod eu sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn well nag y maent mewn gwirionedd. | Bydd pobl ifanc (10-18 oed) mewn ardaloedd sydd â lefelau uwch o anfantais ariannol ar draws Lloegr yn cymryd rhan mewn gweithdai wyneb yn wyneb mewn grwpiau ieuenctid, colegau a llyfrgelloedd cyhoeddus.<br><br>Byddant yn: dod ar draws enghreifftiau o wahanol fathau o wybodaeth; clywed am yr adnoddau i wahaniaethu rhwng cynnwys camarweiniol ar-lein a chynnwys y telir amdano, a gwybodaeth sydd wedi'i dilysu; dysgu sut mae ecosystem y cyfryngau digidol yn gweithio; a chael eu hannog i fyfyrio ar eu harferion a'u hagweddau eu hunain. | Bydd cyfranogwyr yn gallu adnabod cynnwys dibynadwy yn well, ac adnabod hysbysebion. Byddant yn gallu gwahaniaethu yn well pa wybodaeth maent yn dod ar ei thraws ar-lein sy'n ddibynadwy a pha wybodaeth allai fod yn gamarweiniol, oherwydd bydd ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau i feddwl am ffynhonnell yr wybodaeth a'i chymhellion, yn hytrach na'i derbyn ar yr olwg gyntaf.<br><br>Bydd ganddynt fwy o ymwybyddiaeth o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth fel bygythiad sy'n bodoli'n barhaus, oherwydd byddant yn deall sut mae'r gwahanol chwaraewyr yn ecosystem y cyfryngau ar-lein yn gweithredu, a'r cymhellion dros greu a lledaenu cynnwys ffug a chamarweiniol.<br><br>Bydd cyfranogwyr yn defnyddio ffynonellau dibynadwy o wybodaeth yn amlach, a byddant yn mabwysiadu dull mwy ystyriol o rannu straeon a gwybodaeth ar-lein, oherwydd byddant yn ymdrin â gwybodaeth gyda llygad mwy beirniadol, a byddant yn deall peryglon rhannu gwybodaeth gamarweiniol. | Bydd cyfranogwyr yn rhan o genhedlaeth sy'n fwy gwydn yn erbyn y niwed ar-lein a achosir gan gamwybodaeth a thwyllwybodaeth, a bydd ganddynt fwy o ymddiriedaeth mewn ffynonellau dibynadwy o wybodaeth. Bydd yr ymyriad yn cael effeithiau cadarnhaol ar eu llesiant - oherwydd byddant yn cael llai o brofiadau negyddol ar-lein – ac ar gydlyniant cymdeithasol ehangach. |

| Tystiolaeth o'r broblem/problemau | Mewnbwn | Gweithgareddau | Allbwn | Canlyniadau ar unwaith | Canlyniadau tymor canolig | Effaith hirdymor |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn ôl adroddiad Ofcom "Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau":<br>• Dywedodd 74% o bobl ifanc eu bod yn hyderus wrth adnabod camwybodaeth, ond dim ond 11% oedd yn gallu adnabod gwybodaeth ddilys heb wneud camgymeriadau (2022)<br>• Dywedodd traean o blant 8-17 oed (32%) eu bod yn credu bod y cyfan neu'r rhan fwyaf o'r hyn roeddent yn ei weld ar y cyfryngau cymdeithasol yn gywir ac yn wir (2023)<br>• Roedd dros hanner y plant rhwng 12 a 15 oed (54%) yn credu bod straeon newyddion ar wefannau neu apiau bob amser neu ar y cyfan yn wir neu'n gywir (2023). | Staff y prosiect.<br><br>Ymchwil a gynhaliwyd dan grant blaenorol am arferion defnyddio gwybodaeth y grŵp targed hwn, a'u defnydd o gyfryngau cymdeithasol.<br><br>Partneriaeth gyda chymdeithas clybiau ieuenctid.<br><br>Cyllid gan ABC Foundation. | Bydd y Digital Sleuth Club yn cynnal cyfres o weithdai dwy awr annibynnol mewn canolfannau/clybiau ieuenctid a llyfrgelloedd cyhoeddus, mewn ardaloedd a nodir gan ddefnyddio mynegeion amddifadedd lluosog. Bydd staff y prosiect yn:<br>• Darparu gweithdai i rieni<br>• Darparu gweithdai i bobl ifanc.<br>• Datblygu adnoddau ar gyfer gweithdai.<br>• Cyflogi a hyfforddi arbenigwyr i gynhyrchu deunyddiau ymgyrchu ategol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.<br>• Sicrhau cynaliadwyedd y rhaglen drwy rannu adnoddau neu hyfforddi arweinwyr ieuenctid.<br>• Defnyddio eu partneriaeth gyda chymdeithas y clybiau ieuenctid i sicrhau lleoliadau gweithdai ac i ddod o hyd i gyfranogwyr ar gyfer y gweithdai. | Nifer y gweithdai a gynhaliwyd.<br><br>Faint o bobl a ddaeth i bob gweithdy.<br><br>Sawl gwaith y cafodd pob darn o ddeunydd ei lawrlwytho.<br><br>Sawl gwaith yr edrychwyd ar yr ymgyrch gymdeithasol. | Rhieni yn deall gwerth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.<br><br>Rhieni yn annog plant i fynychu.<br><br>Gwella gallu pobl ifanc i ganfod camwybodaeth a thwyllwybodaeth.<br><br>Mwy o ddealltwriaeth o sut mae ecosystem y cyfryngau digidol yn gweithio.<br><br>Gwell dealltwriaeth o sut mae cynnwys ar-lein wedi'i ddilysu yn cael ei gynhyrchu<br><br>Gwell dealltwriaeth o sut i adnabod cynnwys ar-lein wedi'i ddilysu a chynnwys hysbysebu ar-lein. | Asesiad beirniadol gwell o wybodaeth ar-lein.<br><br>Mwy o ddefnydd o ffynonellau gwybodaeth dibynadwy.<br><br>Defnyddio dull mwy ystyriol o rannu straeon a gwybodaeth ar-lein. | Mwy o wytnwch o ran camwybodaeth a thwyllwybodaeth.<br><br>Mwy o sylw i gynnwys ar-lein dibynadwy a dilys, a llai o sylw i gynnwys ffug/camarweiniol.<br><br>Cyhoedd mwy gwybodus. |

| Tybiaethau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mae pobl ifanc eisiau cymryd rhan yn y gweithdai.<br><br>Mae gan glybiau ieuenctid le rhydd i gynnal gweithdai. | Mae'r gyfres o weithdai yn ddigon o amser i gyfranogwyr sydd â galluoedd dysgu gwahanol gyflawni canlyniadau.<br><br>Mae dealltwriaeth yn arwain at fwy o allu. | Mae mwy o ymwybyddiaeth yn arwain at newid agweddau ac ymddygiad.<br><br>Mae pobl ifanc yn gallu ymdopi ag unrhyw bwysau gan gyfoedion o ran defnyddio'r cyfryngau. | Mae canlyniadau meddwl yn feirniadol yn cyd-fynd â datblygiad tactegau twyllwybodaeth. |

## Enghraifft o fframwaith gwerthuso

**Enw'r prosiect:** Digital Sleuth Club

| A. Beth rydych chi am ei fesur? | B. Sut byddwch chi'n olrhain newid? | C. Pa ddulliau byddwch chi'n eu defnyddio i gasglu'r data? | D. Pryd byddwch chi'n casglu data? | E. Pwy sy'n gyfrifol am gasglu data? |
|---|---|---|---|---|
| Mae gan rieni ddealltwriaeth o werth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein | Cyfran yr oedolion sy'n cytuno bod 'ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn sgil pwysig i'w plentyn ei ddatblygu' | Ffurflen gofrestru'r gweithdy a ffurflen adborth - rhieni | Wrth gofrestru ac ar ôl y gweithdy i rieni | Dani (rheolwr y prosiect a hwylusydd y gweithdy i rieni) |
| Gwell dealltwriaeth o sut i adnabod cynnwys ar-lein wedi'i ddilysu, a sut i adnabod cynnwys hysbysebu ar-lein | Cyfran y bobl ifanc sy'n gallu enwi tair ffordd o ddilysu cynnwys ar-lein | Cwis y gweithdy dilysu cynnwys ar-lein – pobl ifanc | Yn ystod y gweithdy | James (hwylusydd y gweithdy i bobl ifanc) |
| Gwell dealltwriaeth o sut i adnabod cynnwys ar-lein wedi'i ddilysu, a sut i adnabod cynnwys hysbysebu ar-lein | Cyfran y bobl ifanc sy'n gallu adnabod tri arwydd o hysbysebion sgam yn gywir | Cwis y gweithdy dilysu cynnwys ar-lein – pobl ifanc | Yn ystod y gweithdy | James (hwylusydd y gweithdy i bobl ifanc) |
| Gwelliant yng ngallu pobl ifanc i ganfod camwybodaeth a thwyllwybodaeth | Lefel hyder i adnabod camwybodaeth a thwyllwybodaeth | Arolwg gweithdai – pobl ifanc<br>Grŵp trafod – pobl ifanc | Diwedd y gweithdy<br>3 mis ar ôl i'r prosiect ddod i ben | Dani (rheolwr y prosiect a hwylusydd y gweithdy i rieni)<br>Gwerthuswr annibynnol |
| Gwelliant yng ngallu pobl ifanc i ganfod camwybodaeth a thwyllwybodaeth | Cyfran y bobl ifanc sy'n gallu adnabod straeon newyddion ffug yn gywir | Arolwg gweithdai – pobl ifanc | Diwedd y gweithdy | James (hwylusydd y gweithdy i bobl ifanc) |
| Mwy o ddefnydd o ffynonellau dibynadwy o wybodaeth | Cyfran y bobl ifanc sydd ond yn defnyddio gwefannau maent wedi'u defnyddio o'r blaen | Grŵp trafod – pobl ifanc | 3 mis ar ôl i'r prosiect ddod i ben | Gwerthuswr annibynnol |
| Mwy o ddefnydd o ffynonellau dibynadwy o wybodaeth | Addasrwydd ffynonellau gwybodaeth y cyfeirir atynt | Grŵp trafod – pobl ifanc | 3 mis ar ôl i'r prosiect ddod i ben | Gwerthuswr annibynnol |

# Gwneud

Amser darllen: 14 munud

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar sut mae nodi'r data sydd ei angen ar gyfer gwerthuso. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o'r prif ddulliau a ddefnyddir yn aml, a rhai o'r ystyriaethau cyffredinol i'w cadw mewn cof wrth i chi gynllunio eich gweithgareddau casglu data.



Mae wedi'i rhannu'n bedwar cam:

- **Dulliau ymchwil**
- **Pwy i'w gynnwys yn eich gwerthusiad**
- **Dadansoddi data**
- **Dangos eich bod wedi gwneud gwahaniaeth**

## Dulliau ymchwil

### Casglu eich data

Bydd cynnal gwerthusiad yn golygu casglu a dadansoddi data am effaith yr ymyriad ar eich grŵp targed, a/neu eu profiad ohono. Mae sawl dull y gellir eu defnyddio, ac mae rhai cysyniadau ac arferion cyffredin i fod yn ymwybodol ohonynt. Rydym yn amlinellu'r rhain isod. Y ddau brif ddull ar gyfer casglu data yw:

**Arolygon a chwisiau**: gall y rhain fod yn ddefnyddiol ar gyfer casglu ffeithiau a ffigurau (data meintiol) i lywio eich gwerthusiad. Mae cwestiynau'n cael eu gofyn mewn ffordd systematig fel bod modd cymharu ymatebwyr. Gall cwestiynau o'r fath gynnwys cwestiynau caeedig (h.y. rhai gyda chodau ateb parod). Mae'r rhain yn arwain at ddata meintiol, sy'n eich galluogi i weld tueddiadau a gwneud cymariaethau dros amser. Gall cwestiynau arolwg agored, lle gwahoddir ymatebwyr i ysgrifennu atebion yn eu geiriau eu hunain, gynhyrchu data ansoddol defnyddiol.

***Diffiniad: Arolygon***

Mae arolygon yn cynnwys ffurflenni neu restrau o gwestiynau a gallant gynhyrchu data meintiol ac ansoddol, yn dibynnu ar y math o gwestiynau sy'n cael eu gofyn.

Ar gyfer ymyriad ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, mae'n bosibl y byddwch am gynnal arolwg ymhlith eich cyfranogwyr cyn ac ar ôl yr ymyriad, neu'n syth ar ei ôl ac wedyn sawl mis yn ddiweddarach.

Bydd y math o arolwg rydych chi'n ei greu yn dibynnu ar eich cynulleidfa darged, a beth rydych chi am ei ganfod.

***Diffiniad: Data meintiol***

Mae data meintiol yn wybodaeth y mae modd ei chyfrif. Ar gyfer ymyriad ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gallai hyn gynnwys casglu ymatebion i gwestiynau neu ddatganiadau gydag atebion cyfyngedig. Mae'n cael ei gasglu fel arfer drwy arolygon neu holiaduron, a gall gynnwys canlyniadau cwisiau. Gellir ei ddefnyddio i ddeall beth mae pobl yn ei feddwl am rywbeth (o ystod gyfyngedig o opsiynau), ac a yw rhywbeth wedi newid yn eu hagweddau. Gellir casglu data meintiol dros amser i gynhyrchu tystiolaeth hydredol a all ychwanegu rhagor o dystiolaeth o effeithiolrwydd eich ymyriad.

Gellir ei gyfuno â data ansoddol er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach.

**Cyfweliadau a grwpiau ffocws:** gall y rhain fod yn ddefnyddiol ar gyfer cofnodi 'pam' ac 'felly...' (data ansoddol). Mae'r dull wedi'i deilwra i gofnodi straeon unigol a all ddod â'ch gwerthusiad yn fyw. Maent yn tueddu i gynnwys cwestiynau penagored (h.y. rhai lle gall y cyfranogwr ateb gan ddefnyddio ei eiriau ei hun). Mae'r rhain yn arwain at ddata ansoddol, gan gynnwys dyfyniadau y gellir eu defnyddio i ddangos effaith yr ymyriad.

I gael gwybodaeth ac adnoddau manylach, mae'r dogfennau yma'n rhoi trosolwg o'r dulliau, y prif faterion, ac enghraifft wedi'i hanodi.

***Diffiniad: Cyfweliadau***

Mae cyfweliadau yn ddull ymchwil sy'n cynnwys sgyrsiau rhwng ymchwilydd a chyfranogwr, yn aml gyda chwestiynau neu ganllaw trafod a ddiffinnir ymlaen llaw. Maent yn eich galluogi i ofyn cwestiynau manwl a chael dealltwriaeth fanylach o sut y gallai ymyriad fod wedi newid agwedd ac ymddygiad cyfranogwr.

***Diffiniad: Grwpiau ffocws***

Mae grŵp ffocws yn ddull ymchwil sy'n cynnwys dod â grŵp o bobl sydd â nodweddion neu brofiadau penodol at ei gilydd i drafod pwnc. Fel dull ymchwil ansoddol, gellir defnyddio hwn i ddeall sut a pham mae pobl yn meddwl neu'n ymddwyn mewn ffordd benodol.

O ran mentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gellid defnyddio grwpiau ffocws yn eich cynulleidfa darged i helpu i ddatblygu agweddau ar yr ymyriad, neu gellid defnyddio grwpiau ffocws o gyfranogwyr i benderfynu beth maen nhw wedi'i ddysgu a sut mae wedi newid eu hymddygiad, neu beth maen nhw'n meddwl y gellid ei wella am weithgareddau'r prosiect.

## Ystyriaethau cyfreithiol, moesegol a diogelu

Cyn dechrau unrhyw waith ymchwil, mae'n bwysig meddwl yn ofalus am yr ystyriaethau cyfreithiol, moesegol a diogelu. Mae Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad yn fan cychwyn da. Mae'n nodi sut y dylai ymchwilydd proffesiynol ymddwyn. I gael gwybodaeth am sut y gallai diogelu data fod yn berthnasol i'ch ymchwil, mae'n bosibl yr hoffech edrych ar ganllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data. Efallai y byddwch hefyd am ystyried cael cyngor cyfreithiol annibynnol neu gyngor arbenigol ar faterion megis sut i ddiogelu plant neu oedolion agored i niwed rhag niwed (os yw'n berthnasol i'ch prosiect).

Cofiwch am lesiant eich tîm eich hun wrth wneud cynlluniau a gwnewch yn siŵr bod mesurau diogelu ac uwchgyfeirio priodol ar waith, yn enwedig os yw eich ymyriad yn canolbwyntio ar feysydd pwnc sensitif.

## Lleihau rhagfarn

Her a wynebir gan yr holl werthuswyr yw sut i leihau rhagfarn. Mae pob un ohonom am i'n prosiectau berfformio'n dda, ond os oes rhagfarn wrth gasglu a dadansoddi data, bydd hygrededd y gwerthusiad yn cael ei danseilio a bydd y cyfle i ddysgu yn cael ei golli.

## Pwy i'w gynnwys yn eich gwerthusiad

Yn dibynnu ar faint o bobl sy'n cymryd rhan yn eich prosiect yn gyffredinol, mae'n bosibl na fydd angen i chi wneud gwaith ymchwil gyda phob un ohonynt i gael yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Gall dewis sampl leihau'r baich ar eich tîm (o ran casglu a dadansoddi data) ac ar eich cyfranogwyr. Ond yn gyffredinol, mae cael sampl fawr yn well ac mae'n golygu y gallwch fod yn fwy hyderus bod unrhyw newidiadau bach a welwch yn rhai sylweddol. Gallwch ddarllen mwy am sut i benderfynu ar y maint sampl cywir yn y canllaw hwn (tudalennau 16 i 18).

Un opsiwn i'w ystyried yw defnyddio offer gwerthuso wrth gyflawni'r prosiect. Er enghraifft, mae pobl yn hoffi gweld eu bod wedi gwneud cynnydd, felly os bydd cymharu sgoriau cyn ac ar ôl cwis neu arolwg yn rhan o'r rhaglen, bydd hyn yn ddefnyddiol ar gyfer y gwerthusiad ac yn ddiddorol i'r cyfranogwyr.


Os na allwch chi holi pawb sy'n rhan o'ch cynllun, dylech geisio siarad â sampl gynrychioliadol sy'n adlewyrchu nodweddion amrywiol y grŵp cyfan; er enghraifft, drwy greu hapsampl, neu gallwch ddewis pobl sydd yn y sefyllfa orau i helpu gyda'ch cwestiynau gwerthuso penodol. Er enghraifft, os mai eich damcaniaeth yw bod pobl hŷn yn debygol iawn o ffafrio ymyriad, dylech sicrhau bod gennych bobl hŷn ac iau yn eich sampl, er mwyn i chi allu eu cymharu.

***Diffiniad: Sampl***

Wrth gynnal gwerthusiad, mae'n bosibl y byddwch yn gallu casglu rhywfaint o ddata gan ddetholiad o gyfranogwyr yn unig: dyma fyddai eich sampl. Mae maint y sampl mewn perthynas â'r grŵp cyfan yn bwysig, gan fod arwyddocâd ystadegol eich canfyddiadau (sy'n caniatáu i chi ddod i gasgliad ynghylch a wnaeth rhywbeth wahaniaeth ai peidio) yn dibynnu'n rhannol ar faint y sampl.

***Diffiniad: Damcaniaeth***

Damcaniaeth yw datganiad amodol neu esboniad arfaethedig am ffenomen neu ddigwyddiad, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael. Mae'n aml yn rhagweld y bydd neu na fydd cydberthynas rhwng dau newidyn, a gallai un o'r rhain fod yn ymyriad ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae damcaniaeth brofadwy yn un y gellir ei phrofi neu ei gwrthbrofi drwy arbrofi. Dylai gwerthusiad brofi a yw damcaniaeth yn ymddangos yn wir ai peidio: er enghraifft, efallai mai eich damcaniaeth fydd bod eich ymyriad yn gwella gwybodaeth neu sgiliau cyfranogwyr mewn maes penodol, a bydd eich gwerthusiad yn penderfynu a yw'n gwneud hynny mewn gwirionedd.



## Dadansoddi data

Bydd sut rydych chi'n dadansoddi eich data yn dibynnu ar yr hyn rydych chi wedi'i gasglu. Fodd bynnag, mae rhai rheolau cyffredinol y dylech eu dilyn bob amser:

- Cyfeiriwch yn ôl at eich damcaniaeth newid. Dylai'r data rydych chi wedi'i gasglu eich helpu i ddangos tystiolaeth ar gyfer bob un o'r camau.
- Ar gyfer data meintiol (e.e. data a gasglwyd drwy gwestiynau caeedig mewn arolygon neu gwisiau) gallwch ddefnyddio ystadegau megis nifer neu ganran y bobl a oedd wedi perfformio'n well mewn cwis ar ôl yr ymyriad, neu ddulliau fel effeithiau o'u cymharu â'r grŵp cymharu (gweler uchod ar senarios gwrthffeithiol a hap-dreialon dan reolaeth).
- Ar gyfer data ansoddol (e.e. data cyfweliadau neu grwpiau ffocws) gall fod yn anoddach penderfynu beth i'w gynnwys, a gallech fod mewn perygl o ddewis a dethol y dyfyniadau gorau i ddangos llwyddiant. Gall fod yn ddefnyddiol rhoi'r holl ddata ansoddol mewn grid mawr gyda'r cwestiynau dadansoddi er mwyn i chi allu nodi'r themâu cyffredin. A heriwch eich hun i chwilio am wersi y gallwch eu defnyddio yn y dyfodol, gan y bydd hyn yn ychwanegu hygrededd at eich adroddiadau.

## Dangos eich bod wedi gwneud y gwahaniaeth

Wrth asesu effaith ymyriad penodol, mae'n bwysig gallu cymharu unrhyw newid a ganfuwyd â'r hyn a fyddai wedi digwydd heb yr ymyriad: dyma'r senario wrthffeithiol. Mae'r senario wrthffeithiol yn eich helpu i briodoli unrhyw effaith a ganfyddir i'ch ymyriad, yn hytrach na rhywbeth a allai fod wedi digwydd beth bynnag (e.e. rhywun yn gwella mewn prawf dros amser, hyd yn oed heb ymyriad, os yw'n gallu gweld ei ganlyniadau ar unwaith).

Nid oes ffordd o arsylwi'n uniongyrchol beth fyddai wedi digwydd pe na baech wedi cynnal eich ymyriad, felly mae ymchwilwyr yn defnyddio gwahanol ddulliau i'w amcangyfrif. Fodd bynnag, gall rhai o'r dulliau hyn fod yn heriol a gofyn am lawer o adnoddau, yn enwedig ar gyfer cynlluniau peilot neu gynlluniau 'nad ydynt wedi'u safoni' yn y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol.

Mae'n aml yn ddigon chwilio am dystiolaeth dda o achosiaeth, yn hytrach na thystiolaeth *wyddonol* y bydd dulliau mwy cymhleth yn ei rhoi i chi.

Gallwch greu hyn drwy:

- feddu ar ddamcaniaeth newid gadarn (h.y. mae'n nodi'n glir pa newidiadau fydd yn digwydd yn eich barn chi a sut y byddant yn arwain at ei gilydd, yn ogystal ag unrhyw dybiaethau critigol)
- cymharu canlyniadau cyfranogwyr ar ddiwedd ymyriad yn erbyn **llinell sylfaen** o'r dechrau (h.y., cymharu lefelau sgiliau neu wybodaeth eich cynulleidfa cyn ac ar ôl yr ymyriad).
- ategu cwestiynau penagored i ofyn i'r cyfranogwyr ystyried pam mae eu sgoriau wedi gwella.

Efallai y bydd sefydliadau mwy am ystyried rhinweddau creu grŵp rheoli (cynulleidfa sydd â nodweddion tebyg i'r targed, heb fynediad at yr ymyriad). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adnodd hwn gan Lywodraeth y DU, neu yn Unicef: quasi-experimental design and methods.

## Darllen pellach

I'r rheini sydd eisiau darllen mwy am faterion yn ymwneud â chasglu a dadansoddi data, mae'r gwefannau hyn yn ddefnyddiol:

Code of Conduct | Market Research Society (mrs.org.uk)

Guide to the UK General Data Protection Regulation (UK GDPR) | ICO

Digital Inclusion Evaluation Toolkit (publishing.service.gov.uk)

Simple Random Sampling - Research-Methodology

Collect and/ or retrieve data - Rainbow Framework (betterevaluation.org)

Choosing your collection methods | NCVO

# Dysgu a Rhannu

Amser darllen: 8 munud

## Myfyrio ac addasu

Mae gwerthusiadau yn eich helpu i ddeall mwy am eich gweithgareddau, os ydych wedi cyflawni eich canlyniadau ac, os nad ydych chi, pam. Mae defnyddio’r dysgu hwn i fyfyrio ac, os oes angen, addasu sut rydych chi’n mynd ati i weithio yn un o brif fanteision buddsoddi mewn gwerthuso.

Gallwch fyfyrio ar hyn ar ddiwedd eich menter i nodi’r gwersi a ddysgwyd, eu defnyddio i lywio penderfyniadau yn y dyfodol am fentrau tebyg neu gyda grwpiau targed tebyg, neu eu rhannu â rhanddeiliaid eraill (gweler isod).

Gallwch hefyd ddadansoddi a myfyrio ar eich data a'r gwersi a ddysgwyd ar adegau allweddol yn ystod eich cyflwyniad (e.e. ar y pwynt canol).

Bydd hyn yn eich galluogi i edrych ar yr hyn sy’n gweithio’n dda a’r hyn nad yw’n gweithio’n dda, addasu’r ffordd mae eich menter yn cael ei chyflwyno er mwyn bod yn fwy effeithiol, a rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid ynghylch yr hyn y gallech ei gyflawni neu beidio â’i gyflawni.

Mae’r pethau y gallech fod eisiau canolbwyntio arnynt ar y pwynt canol yn cynnwys a ydych wedi cyrraedd eich grwpiau targed arfaethedig, myfyrio ar yr hyn y mae cyfranogwyr yn ei hoffi neu’r hyn y gellid ei wella am eich gweithgareddau, ac unrhyw dystiolaeth o’ch canlyniadau uniongyrchol.

## Rhannu

Creu adroddiad gwerthuso clir a chymhellol ar gyfer eich rhanddeiliaid yw cam olaf y broses.

Ni ddylid ystyried adroddiad gwerthuso fel ffordd o ddangos gwerth menter. Pwrpas yr adroddiad yw eich helpu i rannu canfyddiadau a dysgu ohonynt. Drwy rannu eich adroddiad yn ehangach – er enghraifft, gydag Ofcom – gallwch hefyd helpu pobl eraill i ddysgu o’ch gwaith.

Does dim angen i chi roi’r holl ddata rydych chi wedi’i gasglu yn yr adroddiad, ond mae’n rhaid i chi gyfleu’r stori’n gywir. Mae hyn yn golygu na ddylech wneud i’ch ymyriad edrych yn fwy llwyddiannus nag yr oedd drwy ddethol y data a ddefnyddir, gan fod gwneud hynny nid yn unig yn tanseilio eich hygrededd ond hefyd yn golygu y gall pobl eraill wneud yr un camgymeriadau, ac felly ni fydd neb yn dysgu.



## Rhoi eich adroddiad gwerthuso at ei gilydd

Yn yr adroddiad gwerthuso, rydych chi'n dod â'r holl dystiolaeth rydych chi wedi'i chasglu at ei gilydd i adrodd eich stori. Dylech nodi'r negeseuon allweddol yr ydych am eu cyfleu i'r darllenydd, a sut i wneud y pwyntiau hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol gan ddefnyddio'r dystiolaeth i'w hategu. Mae rhai pethau safonol y mae bob amser yn ddefnyddiol eu cynnwys mewn adroddiad gwerthuso. Fodd bynnag, mae'n bwysig meddwl pwy yw eich cynulleidfa a beth fydd o ddiddordeb iddynt. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n syniad da llunio crynodeb o un i ddwy dudalen o hyd yn nodi'r canfyddiadau a fydd yn denu pobl i ddarllen y manylion ychwanegol.

Mae'r penodau canlynol fel arfer yn ddefnyddiol i'w cynnwys:


- **Crynodeb gweithredol** (un i ddwy dudalen yn nodi beth oedd yr ymyriad a'r hyn a ddysgoch yn y gwerthusiad)
- **Cefndir y prosiect** (cyflwyniad cyffredinol i'r sefydliad a'r gwasanaethau sy'n cael eu gwerthuso). Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys trafodaeth am y mewnbynnau a'r gweithgareddau yn yr adran hon).
    - Gall hyn gynnwys **damcaniaeth newid** y rhaglen, a fydd yn rhoi trosolwg da i'r darllenydd o'r hyn roeddech chi wedi'i gynllunio.
- **Nodau a chwmpas y gwerthusiad** (gan gynnwys unrhyw gwestiynau gwerthuso penodol a throsolwg lefel uchel o fethodoleg yr ymchwil).
- **Disgrifiad o'r canfyddiadau** (yr hyn y mae'r data'n ei ddangos, a oedd eich ymyriad wedi gweithio, a pham).
    - Mae gwahanol ffyrdd o strwythuro'r canfyddiadau yn dibynnu ar eich cynulleidfa. Mae'r opsiynau'n cynnwys:
        - Nodi, yn eu trefn, tystiolaeth o'r allbynnau, y canlyniadau ar unwaith, y canlyniadau tymor canolig, a'r effaith.
        - Strwythuro'r adroddiad yn thematig o amgylch gwahanol amcanion y rhaglen. Er enghraifft, yn gyntaf, trafodwch yr effaith a gawsoch ar allu'r cyfranogwyr i graffu ar gynnwys, yna am eu gallu i farnu ffynonellau credadwy ac ati, a sut y cyfrannodd yr allbynnau a'r canlyniadau at y rhain.
        - Cynnwys pennod ar gyfer pob gweithgaredd a'r dystiolaeth ar gyfer yr effaith y mae wedi'i chael.
- **Yr hyn a ddysgwyd a'r camau nesaf** (beth aeth yn dda a beth y gellir ei wella y tro nesaf/mewn prosiectau yn y dyfodol).
- **Atodiad** (dylid cynnwys prif elfennau'r adrannau hyn yn y prif adroddiad, ond gall fod yn ddefnyddiol defnyddio atodiad i roi rhagor o fanylion).
    - **Manylion cyflawni eich prosiect** (y mwyaf o fanylion rydych chi'n eu cynnwys am yr ymyriad, naill ai yma neu mewn atodiad, yr hawsaf fydd hi i ymarferwyr eraill ddysgu o'r hyn rydych chi wedi'i wneud).
    - **Manylion eich proses casglu data** (pryd a sut y cynhaliwyd yr ymchwil, gyda phwy, unrhyw ystyriaethau moesegol, ac ati).




## Delweddu eich data

Mae amrywiaeth o offer sylfaenol ar gael i wneud y data rydych chi am ei gyflwyno yn haws ei ddeall. Gallwch wneud eich adroddiad yn fwy hygyrch drwy dorri ar destun a rhifau gan ddefnyddio lluniau, graffiau, ffeithluniau neu ddyfyniadau gair am air o astudiaethau achos. Mae hefyd yn ffordd effeithiol o gyfuno eich canlyniadau meintiol (rhifau) â'ch data ansoddol (cyfweliadau ac astudiaethau achos) i adrodd stori ehangach. Bydd y dull delweddu rydych chi wedi'i ddewis yn dibynnu ar y pwyntiau rydych chi am eu gwneud.


**Siart llinell:** Mae hyn yn ddefnyddiol i ddelweddu data cymharol dros amser.





**Siart cylch:** Mae hyn yn ddefnyddiol i ddangos ymatebion carfannau (h.y. roedd traean o'r ymatebwyr wedi dangos dealltwriaeth mewn maes penodol) ar adeg penodol.




**Siart bar neu golofn:** Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer cymharu data rhwng eitemau.




**Siart pentwr:** Mae hyn yn ddefnyddiol i ddangos ymatebion carfan dros amser.




**Dyfyniadau:** Defnyddiwch ddyfyniadau o'ch data ansoddol i dynnu sylw at y pwyntiau rydych am eu gwneud.

Proin quis gravida ante. Nulla faucibus viverra sollicitudin. Cras est lorem, maximus id auctor ut, eleifend vitae lorem. Curabitur eu libero ultricies sapien auctor tincidunt. Aenean lacinia augue lacus, ac porttitor nunc volutpat sed.

*"Weithiau rydw i'n gwylio TikTok ac yn anghofio faint yw hi o'r gloch ac yn colli'r cyfle i fynd i chwarae gyda fy ffrindiau"* Jerome, 14 oed

Curabitur eleifend odio nulla, id lobortis tortor rutrum dignissim. Mauris tempor nunc risus, vel vestibulum ligula pharetra vel. Vivamus porta lectus id nisl commodo, non bibendum nunc imperdiet. Morbi lobortis elit lorem, eget lacinia tellus tristique eu. Fusce eget nisl ante. Nulla fringilla tortor nec massa mattis, non tempor lectus imperdiet.

Gallech wneud eich siartiau yn Excel neu PowerPoint gan ddefnyddio'r templedi parod, neu ddefnyddio Google Charts. Os hoffech gael rhagor o adnoddau, rydym yn awgrymu gwefannau fel Datawrapper neu Tableau Public.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi o ble ddaeth eich tystiolaeth drwy gydol eich adroddiad. Ar gyfer data arolwg neu gwis, cofiwch gynnwys gwybodaeth am **faint y sylfaen** a'r cwestiwn a atebwyd ym mhob siart.

***Maint y sylfaen***

Maint y sylfaen yw nifer y bobl y gofynnwyd cwestiwn penodol iddynt.

Ar gyfer dyfyniadau gan grwpiau neu gyfweliadau, dylech gynnwys ffynhonnell y dyfyniad. Nid yw hyn yn golygu bod angen i chi enwi unigolion (mae'n bosibl y byddai'n well ganddyn nhw aros yn ddienw) ond gallwch ddweud a ydyn nhw'n gyfranogwyr, yn rhan o'r gwaith darparu, yn gyllidwyr neu'n rhywun arall, er mwyn i'r darllenydd wybod o ba bersbectif maen nhw'n dod.

## Rhannu eich adroddiad gwerthuso yn fewnol ac yn allanol

Ar ôl creu eich adroddiad gwerthuso, dylech ei rannu! Mae gwerthuso'n bwysig er mwyn symud ymlaen a dysgu gwersi. Drwy fyfyrio ar eich adroddiad gwerthuso yn fewnol, gall eich sefydliad ddefnyddio ei ganfyddiadau i wella'r gwaith sy'n cael ei wneud a meddwl sut y gallai pethau ddigwydd yn wahanol y tro nesaf. Yn y cam hwn, gallwch fynd yn ôl at eich fframwaith gwerthuso ac addasu gweithgareddau eich prosiect yn seiliedig ar y gwersi hyn.



Yn y canllaw hwn, rydym wedi ceisio egluro pam mae cynhyrchu gwerthusiadau yn ddefnyddiol, nid yn unig i'r tîm sy'n darparu ymyriad, ond hefyd i'r sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ehangach. Mae'n bosibl y byddwch yn dewis datblygu gwahanol fersiynau o'r adroddiad ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd – er enghraifft, efallai y bydd gan gyllidwr ddiddordeb yn bennaf mewn gweithgareddau a metrigau effaith, ac y bydd gan ymarferwyr eraill fwy o ddiddordeb yn yr hyn a wnaethoch chi, a sut.

Yn ogystal â rhannu'r adroddiad â'ch rhanddeiliaid, rydym yn eich annog i'w rannu â ni.

### Darllen pellach

I'r rheini sydd eisiau darllen mwy am faterion yn ymwneud ag ysgrifennu adroddiad gwerthuso, mae'r gwefannau canlynol yn ddefnyddiol:

The Digital Inclusion Evaluation Toolkit Report Template (publishing.service.gov.uk)

How to write an evaluation report | NCVO

INSTRUCTIONAL STRATEGIES (altteaching.org)

Datawrapper: Create charts, maps, and tables

Tableau Public

# Atodiad: Geirfa

Defnyddir nifer o wahanol dermau wrth drafod gwerthuso ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Rydym wedi diffinio rhywfaint o'r rhai pwysicaf yma. Mae'n bwysig nodi bod gorgyffwrdd weithiau yn y ffordd y mae termau'n cael eu defnyddio.

### Tybiaethau

Y tybiaethau mewn fframwaith gwerthuso/damcaniaeth newid yw'r pethau y gallwch ddisgwyl yn rhesymol iddynt fod yn wir, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael.

### Llinell sylfaen

Y llinell sylfaen yw'r man cychwyn ar gyfer mesur newid. Ar gyfer prosiect ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gallai hyn fod yn lefel gwybodaeth bresennol y cyfranogwyr am bwnc, neu lefel bresennol eu sgiliau. Gellid sefydlu hyn drwy gynnal cwis, arolwg, cyfweliad neu grŵp ffocws gyda'r gynulleidfa darged cyn i'r ymyriad ddigwydd, a/neu drwy ymchwil flaenorol ar gynulleidfaoedd tebyg.

### Maint y sylfaen

Maint y sylfaen yw nifer y bobl y gofynnwyd cwestiwn penodol iddynt.

### Effaith achosol

Effaith achosol ymyriad yw'r effaith (newid) y dangosir ei bod yn ei chael ar ei gyfranogwyr. Gellir ei ddisgrifio fel y gwahaniaeth rhwng y canlyniadau i gyfranogwyr sydd wedi cymryd rhan mewn ymyriad, o'i gymharu â rhai nad ydynt wedi cymryd rhan, neu ganlyniadau ar gyfer cyfranogwyr ar ôl ymyriad, o'i gymharu â chyn hynny.

### Y senario gwrthffeithiol

Wrth asesu effaith ymyriad penodol, mae'n bwysig gallu cymharu unrhyw newid a ganfuwyd â'r hyn a fyddai'n debygol o fod wedi digwydd heb yr ymyriad: dyma'r senario gwrthffeithiol. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio grŵp rheoli (cynulleidfa â nodweddion tebyg i'ch grŵp targed, heb fynediad at yr ymyriad) neu drwy ddefnyddio llinell sylfaen, h.y. cymharu lefelau sgiliau neu wybodaeth eich cynulleidfa darged cyn ac ar ôl yr ymyriad.

### Data

Mae data'n cyfeirio at yr wybodaeth am eich cyfranogwyr a'u profiad o'ch ymyriad y byddwch yn ei chasglu yn ystod cyfnod ymchwil eich gwerthusiad. Gallai hyn gynnwys mesuriadau, arsylwadau neu adborth gan gyfranogwyr. Gall fod yn ansoddol (naratif) neu'n feintiol (rhifol). Gellir dadansoddi a defnyddio'r data hwn i gael dealltwriaeth well o'r ymyriad, ei ganlyniad a'i effaith.

### Glanhau data

Mae glanhau data yn cyfeirio at y broses o dynnu neu gywiro cofnodion data anghyflawn, anghywir neu anghyson. Mae'n bwysig dileu camgymeriadau o'r fath yn y data er mwyn osgoi dod i gasgliadau anghywir.

### Maint yr effaith

Mae maint yr effaith yn mesur cryfder y berthynas rhwng dau newidyn. Er bod edrych am arwyddocâd ystadegol yn gallu dweud wrthych a yw eich ymyriad yn gweithio ai peidio, mae mesur maint yr effaith yn gallu rhoi syniad i chi o faint effaith eich ymyriad. Mae effaith fwy yn arwydd o berthynas gryfach.

Mae mesur maint effaith eich ymyriad yn golygu cymharu canlyniadau rhifol o'ch grwpiau triniaeth a rheoli (neu o'r un grŵp cyn ac ar ôl yr ymyriad).

Mae gwahanol ddulliau y gallwch eu defnyddio i gyfrifo maint yr effaith. Er enghraifft, mae *Cohen's d* yn golygu cymharu canlyniadau cymedrig y ddau grŵp.

### Gwerthusiad economaidd

Bydd y gwerthusiadau hyn yn canolbwyntio ar ofyn i chi ystyried costau eich prosiect mewn perthynas â'r manteision, gan ofyn cwestiynau fel "oedd y canlyniad yn werth y gost?" Neu "a allai rhywbeth arall fod wedi sicrhau'r un canlyniadau am lai o arian?"

## Fframwaith gwerthuso

Mae fframwaith gwerthuso yn egluro sut bydd yr ymyriad yn cyrraedd ei nodau: o ddechrau'r fenter, gan ddechrau gyda'r adnoddau sydd ar gael; hyd ddiwedd y fenter, gan nodi'r effeithiau terfynol a hirdymor y disgwylir i'r prosiect eu cael.

Mae'n nodi amlinelliad rhesymegol a realistig o ran sut mae mewnbynnau'n cael eu defnyddio i ddatblygu allbynnau prosiect, a sut mae'r allbynnau hynny'n rhyngweithio ag ymddygiad cyfranogwyr er mwyn sicrhau canlyniadau sy'n arwain at effaith barhaol.

## Grwpiau ffocws

Mae grŵp ffocws yn ddull ymchwil sy'n cynnwys dod â grŵp o bobl sydd â nodweddion neu brofiadau penodol at ei gilydd i drafod pwnc. Fel dull ymchwil ansoddol, gellir defnyddio hwn i ddeall sut a pham mae pobl yn meddwl neu'n ymddwyn mewn ffordd benodol.

O ran mentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gellid defnyddio grwpiau ffocws yn eich cynulleidfa darged i helpu i ddatblygu agweddau ar yr ymyriad, a gellid defnyddio grwpiau ffocws o gyfranogwyr i benderfynu beth maen nhw wedi'i ddysgu a sut mae wedi newid eu hymddygiad, neu beth maen nhw'n meddwl y gellid ei wella am weithgareddau'r prosiect.

## Damcaniaeth

Damcaniaeth yw datganiad amodol neu esboniad arfaethedig am ffenomen neu ddigwyddiad, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael. Mae'n aml yn rhagweld y bydd neu na fydd cydberthynas rhwng dau newidyn, a gallai un o'r rhain fod yn ymyriad ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae damcaniaeth brofadwy yn un y gellir ei phrofi neu ei gwrthbrofi drwy arbrofi. Dylai gwerthusiad brofi a yw damcaniaeth yn ymddangos yn wir ai peidio: er enghraifft, efallai mai eich damcaniaeth fydd bod eich ymyriad yn gwella gwybodaeth neu sgiliau cyfranogwyr mewn maes penodol, a bydd eich gwerthusiad yn penderfynu a yw'n gwneud hynny mewn gwirionedd.

## Effaith

Mae effaith yn cyfeirio at newid tymor hwy ar lefel unigol neu gymdeithasol y gellir ei briodoli i ganlyniadau ymyriad. Mae'r effaith yn debygol o fod yn anoddach i'w mesur na'r canlyniadau.

Er enghraifft, dyma effaith bosibl ar gyfer prosiect ymwybyddiaeth o'r cyfryngau:

- mwy o gadernid o ran gwybodaeth gamarweiniol
- newid yn y ffordd y mae cyfranogwyr yn cael gafael ar newyddion
- cynnydd yng nghreadigrwydd y gynulleidfa o ran cyfryngau ar-lein

## Gwerthusiad effaith

Mae gwerthusiad effaith yn canolbwyntio ar ofyn i chi ystyried beth mae'r prosiect wedi'i gyflawni o ran newid ar gyfer y gynulleidfa darged a/neu'r gymdeithas ehangach, a pha mor dda rydych chi wedi cyflawni eich amcanion.

## Dangosyddion

Dangosyddion effaith a dangosyddion canlyniadau yw'r darnau mesuradwy o dystiolaeth sy'n eich galluogi i olrhain y newidiadau sydd wedi digwydd o ganlyniad i'ch ymyriad.

Er enghraifft, ar gyfer prosiect ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gallai dangosydd canlyniad gynnwys newid yn sgôr y cyfranogwyr mewn cwis gwybodaeth cyn ac ar ôl yr ymyrraeth. Byddai gwelliannau cyson a sylweddol mewn sgoriau'n dangos canlyniad cadarnhaol i'r ymyriad.

## Mewnbwn

Mewnbwn yw rhywbeth sydd ei angen i gyflawni gweithgaredd: gallai fod yn aelodau o staff, yn wybodaeth/tystiolaeth ymchwil bresennol, neu'n adnoddau eraill.

Er enghraifft, dyma fewnbwn posibl ar gyfer prosiect ymwybyddiaeth o'r cyfryngau:

- Dau aelod o staff amser llawn
- Canfyddiadau ymchwil am heriau allweddol y gynulleidfa o ran cael gafael ar wybodaeth.

## Cyfweliadau

Mae cyfweliadau yn ddull ymchwil sy'n cynnwys sgyrsiau rhwng ymchwilydd a chyfranogwr, yn aml gyda chwestiynau neu ganllaw trafod a ddiffinnir ymlaen llaw. Maent yn eich galluogi i ofyn cwestiynau manwl a chael dealltwriaeth fanylach o sut y gallai ymyriad fod wedi newid agwedd ac ymddygiad cyfranogwr.

## Graddfa Likert

System sgorio yw graddfa Likert sy'n cael ei defnyddio fel arfer mewn holiaduron neu arolygon i asesu agweddau, argraffiadau neu farn pobl. Bydd arolygon yn aml yn gofyn i ymatebwyr ddefnyddio graddfa Likert o bump (neu saith) cam i roi sgôr i'r graddau y maen nhw'n cytuno â datganiad penodol. Fel arfer, yr opsiynau yw: 'cytuno'n gryf, cytuno, niwtral, anghytuno, anghytuno'n gryf', ond gallai gynnwys camau pellach neu opsiwn 'ddim yn gwybod' yn hytrach na 'niwtral'.

Mae'n bosibl codio'r canlyniadau'n defnyddio rhifau (e.e. gallai *cytuno'n gryf* fod yn 1, a gallai *anghytuno'n gryf* fod yn 5) at ddibenion dehongli data.

## Model rhesymeg

Mae model rhesymeg yn egluro'r berthynas rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau eich ymyriad.

Gellid cynnwys llawer o'r wybodaeth hon mewn fframwaith gwerthuso hefyd.

## Data hydredol

Yng nghyd-destun ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, mae data hydredol yn dystiolaeth a gasglwyd gan yr un cyfranogwyr dros gyfnod o amser; er enghraifft, drwy ofyn yr un cwestiynau. Mae'n eich galluogi i gadw golwg ar newidiadau dros amser.

## Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau

Mae Ofcom yn diffinio ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fel "y gallu i ddefnyddio, deall a chreu cyfryngau a chyfathrebiadau mewn amrywiaeth o gyd-destunau".

## Canlyniad

Canlyniad yw canlyniad ymyriad, sydd yn ddelfrydol yn fudd i'r gynulleidfa darged. Fel arfer, mae'n gyfyngedig ac yn fesuradwy.

Er enghraifft, ar gyfer prosiect ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gallai canlyniadau gynnwys:

- cynyddu gwybodaeth cyfranogwyr,
- cyfranogwyr yn ennill sgìl newydd, a
- newid mewn agwedd ymysg cyfranogwyr.

## Fframwaith canlyniadau

Mae fframwaith canlyniadau yn cynnwys diffinio'n glir y canlyniadau yr ydych am eu cyflawni, a'u blaenoriaethu. Er enghraifft, gallech eu rhannu'n fanteision i unigolion ac yn fanteision i'r gymuned. Mae'n helpu i ganolbwyntio eich gwaith ar y canlyniadau sy'n bwysig i chi, i gysylltu eich gweithgareddau â'r canlyniadau rydych chi am eu gweld, ac i gyfleu'r rhain yn gliriach.

Gellid cynnwys llawer o'r wybodaeth hon mewn fframwaith gwerthuso hefyd.

## Allbwn

Mae allbwn yn cyfeirio at gyflawni ymyriad neu weithgaredd. Gallai'r rhain fod yn gynnyrch (er enghraifft, adnoddau a gynhyrchwyd), neu'n wasanaethau (gweithdai neu sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd).

Er enghraifft, dyma allbynnau posibl ar gyfer prosiect ymwybyddiaeth o'r cyfryngau:

- Cynnal deg gweithdy, gyda 14 o gyfranogwyr yn bresennol ym mhob un.
- Cyhoeddi deg cynllun gwers, wedi'u llwytho i lawr 16 o weithiau ar gyfartaledd.

## Gwerthusiad prosesau

Bydd gwerthusiadau prosesau'n canolbwyntio ar ofyn i chi ystyried sut gwnaethoch chi gyflawni eich prosiect, a sut roedd y ffordd y cafodd y prosiect ei gyflawni wedi effeithio ar y canlyniadau terfynol.

## Data ansoddol

Gwybodaeth na ellir ei chyfrif yw data ansoddol: mae'n ddisgrifiadol, ac yn aml ar gyfer menter ymwybyddiaeth o'r cyfryngau bydd yn naratif neu'n ddyfyniadau gan gyfranogwyr.

Fel arfer, mae'n cael ei gasglu drwy gyfweliadau, grwpiau ffocws, arsylwadau, astudiaethau achos neu gwestiynau arolwg penagored.

Mae'n 'rhoi llais i brofiadau', a gellir ei ddefnyddio i ddeall sut mae pobl yn meddwl neu'n teimlo am rywbeth, a pham maen nhw'n meddwl neu'n teimlo felly. Mae data ansoddol sy'n egluro sut mae cyfranogwr yn credu bod eich ymyriad wedi newid ei fywyd yn ddefnyddiol i'w roi i gyllidwyr.

Gellir ei gyfuno â data meintiol er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach.

## Data meintiol

Mae data meintiol yn wybodaeth y mae modd ei chyfrif. Ar gyfer ymyriad ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gallai hyn gynnwys casglu ymatebion i gwestiynau neu ddatganiadau gydag atebion cyfyngedig.

Mae'n cael ei gasglu fel arfer drwy arolygon neu holiaduron, a gall gynnwys canlyniadau cwisiau.

Gellir ei ddefnyddio i ddeall beth mae pobl yn ei feddwl am rywbeth (o ystod gyfyngedig o opsiynau), ac a yw rhywbeth wedi newid yn eu hagweddau. Gellir casglu data meintiol dros amser i gynhyrchu tystiolaeth hydredol a all ychwanegu rhagor o dystiolaeth o effeithiolrwydd eich ymyriad.

Gellir ei gyfuno â data ansoddol er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach.

## Hap-dreial rheoli

Mae hap-dreial rheoli yn golygu bod grŵp o bobl â nodweddion tebyg yn cael eu neilltuo ar hap i un o ddau grŵp: un sy'n cael yr ymyriad, ac un sydd ddim. Bydd cynnal yr un dulliau gwerthuso ar gyfer y ddau grŵp – arolygon, cwisiau, grwpiau ffocws neu gyfweliadau – yn eich helpu i asesu a yw eich ymyriad wedi gwneud gwahaniaeth ai peidio. Mae neilltuo cyfranogwyr cymwys i'r ddau grŵp ar hap yn helpu i leihau'r risg y gallai ffactorau eraill esbonio gwahaniaeth mewn canlyniadau.

## Sampl

Wrth gynnal gwerthusiad, mae'n bosibl y byddwch yn gallu casglu rhywfaint o ddata gan ddetholiad o gyfranogwyr yn unig: dyma eich sampl. Mae maint y sampl mewn perthynas â'r grŵp cyfan yn bwysig, gan fod arwyddocâd ystadegol eich canfyddiadau (sy'n caniatáu i chi ddod i gasgliad ynghylch a wnaeth rhywbeth wahaniaeth ai peidio) yn dibynnu'n rhannol ar faint y sampl.

## Rhanddeiliaid

Gall rhanddeiliaid y prosiect gynnwys unrhyw un sy'n ymwneud â'r prosiect, gan gynnwys noddwyr prosiectau, aelodau eraill o'r tîm, neu ar gyfer prosiectau mwy, timau eraill.

Gall rhanddeiliaid hefyd gynnwys unrhyw un y gallai'r ymyriad effeithio arnynt, fel cynulleidfaoedd targed.

## Arwyddocâd ystadegol

Mae arwyddocâd ystadegol yn cyfeirio at y tebygolrwydd bod y newid a welwyd yn ganlyniad i ymyriad, yn hytrach na wedi digwydd ar hap. Mae'n cael ei gyfrifo ar sail maint y sampl o'i gymharu â chyfanswm y boblogaeth, ac amrywiad o fewn y boblogaeth.

Os oes arwyddocâd ystadegol i'ch canlyniadau, mae'n golygu eu bod yn debygol iawn o fod yn ganlyniad i'ch ymyriad, yn hytrach nag ar hap.

Mae arwyddocâd ystadegol yn cael ei ddisgrifio fel arfer gan ddefnyddio gwerth tebygolrwydd, neu 'werth-p', sydd bob amser rhwng 0 ac 1. Mae gwerth-p isel yn dangos ei bod yn fwy tebygol nad yw eich canlyniadau wedi digwydd yn ddamweiniol. Gallwch ddefnyddio cyfrifiannell ar-lein i gyfrifo gwerth-p.

## Arolygon

Mae arolygon yn cynnwys ffurflenni neu restrau o gwestiynau a gallant gynhyrchu data meintiol ac ansoddol, yn dibynnu ar y math o gwestiynau sy'n cael eu gofyn.

Ar gyfer ymyriad ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, mae'n bosibl y byddwch am gynnal arolwg ymhlith eich cyfranogwyr cyn ac ar ôl yr ymyriad, neu'n syth ar ei ôl ac wedyn sawl mis yn ddiweddarach.

Bydd y math o arolwg rydych chi'n ei greu yn dibynnu ar eich cynulleidfa darged, a beth rydych chi am ei ganfod.

## Damcaniaeth newid

Model sy'n egluro'r broblem rydych chi'n ceisio ei datrys, sut rydych chi'n bwriadu gwneud hyn, a pha effaith rydych chi'n disgwyl iddo ei chael. Mae'n egluro pam rydych chi'n meddwl y bydd newid yn deillio o'ch ymyriad ac yn cydnabod yr elfennau na allwch eu rheoli.

Mae damcaniaeth newid yn rhoi naratif lefel uchel o'r ymyriad a'r ddamcaniaeth y tu ôl iddo; dylid ei llunio ar ddechrau'r prosiect. Gellid cynnwys llawer o'r wybodaeth hon mewn fframwaith gwerthuso hefyd.

# Atodiad: Adnoddau

Mae nifer o adnoddau yn cael eu crebwyll yn y ddogfen hon sydd ar gael i'ch helpu. I gael mynediad at adnodd penodol, cliciwch y dolenni perthnasol isod:

- **Templed Fframwaith Gwerthuso** *(ODT)*
- **Cyngor Da: Cyfweliadau a grwpiau ffocws** *(PDF)*
- **Cyngor Da: Arolygon a chwisiau** *(PDF)*
- **Llyfrgell Ymchwil Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau Ofcom** *(gwefan)*
- **Llyfrgell Cynlluniau Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau Ofcom** ***(gwefan)***